


Canllaw Dylunio ar gyfer Datblygiadau Preswyl



25



PARATOWYD GAN LDA DESIGN dros
GYMDEITHAS SWYDDOGION CYNLLUNIO CYMRU gyda chefnogaeth
LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

Mawrth 2005

rhagair



SWANSEA FOYER DEVELOPMENT:
MENT: GWALIA HOUSING
GROUP / PCO ARCHITECTS

Rwyf yn croesawu lansiad yr arweiniad cynllun model hwn a gynhyrchiwyd gan Gymdeithas Swyddogion Cynllunio (Cymru) fel carreg filltir arall yn y broses o symud ein gwlad ymlaen tuag at ddyfodol mwy cynaliadwy. Mae'r arian a roddir gan Lywodraeth y Cynulliad dan y rhaglen Cynllunio - darparu ar gyfer Cymru, yn cynhyrchu, nid yn unig adnoddau ychwanegol i wella gwasanaethau ar gyfer bob awdurdod cynllunio lleol, ond hefyd offer gwerthfawr ar gyfer Cymru gyfan, tebyg i'r arweiniad hwn sy'n egluro sut mae cynllunio'n cael ei weithredu. Mae aelodau ac ymgynghorwyr y grwp llywio yn haeddu diolch am eu cyfraniad i gynhyrchiad model mor ddefnyddiol. Rwy'n ei argymhell i bob awdurdod cynllunio lleol, eu cymunedau a'r rhai sy'n dymuno adeiladu tai newydd yng Nghymru.



Carwyn Jones
Gweinidog ar gyfer yr Amgylchedd, Cynllunio ac Ardaloedd Gwledig

c y n n w y s

- 1.0 cyflwyniad
 - 2.0 amcanion dylunio da
 - 3.0 y broses ddylunio
 - 4.0 cyflwyno cais
 - 5.0 arfarnu dyluniadau
 - 6.0 astudiaethau achos
- atodiad
- darllen pellach
- rhestr termau



HEOL RAISDALE: PENSEIRI LOYN & CO

1.0

cyflwyniad

- 1.1 Mae'r holl ddylunio a'r datblygu yn cyfrannu at ddelwedd cenedl ac yn dweud cyfrolau am ei diwylliant, ei hyder a'i dyheadau. Mae hefyd yn effeithio'n uniongyrchol ar les amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol dinasoedd, trefi a phentrefi.
- 1.2 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymroddedig i gyflawni dyluniad da ym mhob datblygiad ar bob graddfa ledled Cymru. Mae dyluniad da yn nod allweddol o'r system gynllunio ac mae Polisi Cynllunio Cymru (LICC 2002) yn gofyn bod Cynlluniau Datblygu Unedol (CDU) yn darparu polisiau clir sy'n nodi disgwyliadau dylunio awdurdodau cynllunio. Mae Nodyn Cyngor Technegol 12 (NCT 12) [LICC 2002A] yn rhoi cyngor i awdurdodau cynllunio lleol ar sut gellir hyrwyddo dyluniad da o fewn y system gynllunio.
- 1.3 Lluniwyd y ddogfen hon fel offeryn ymarferol i'w ddefnyddio gan awdurdodau cynllunio lleol fel canllaw cynllunio atodol i ddiwallu anghenion PCC a chyfleu goblygiadau dylunio NCT 12 i unrhyw un sy'n gwneud cais am godi datblygiad preswyl newydd sy'n fwy nag 1 annedd. Mae'n ofyniad yn ôl PCC a NCT 12 bod 'datganiad dylunio' yn cael ei gyflwyno gyda cheisiadau am ganiatâd cynllunio. Felly, mae'r ddogfen hon yn egluro'r materion y dylai datganiad dylunio ar gyfer datblygiad preswyl newydd eu trafod.
- 1.4 Mae'r ddogfen yn ceisio sefydlu iaith ddylunio gyffredin ar gyfer datblygiadau preswyl yng Nghymru, gan egluro materion dylunio sylfaenol a sut mae mynd i'r afael â hwy drwy:
- ddisgrifio amcanion allweddol dylunio preswyl a darparu arweiniad ar sut gellir eu cyflawni;
 - disgrifio'r broses ddylunio y dylid ei dilyn er mwyn mynd i'r afael â phob amcan yn ddigonol;
 - darparu gwybodaeth ar sut i gyflwyno cais cynllunio i ddangos sut aethpwyd i'r afael â gofyniad am ddyluniad da;
 - egluro sut bydd cynigion yn cael eu harfarnu ar sail dylunio; a
 - darparu enghreifftiau o astudiaethau achos sy'n dangos sawl un o'r egwyddorion a gyflawnwyd mewn datblygiadau diweddar yng Nghymru.
- 1.5 Mae gofyn hefyd i awdurdodau lleol roi sylw priodol i atal trosedd ac anhrefn wrth ymarfer eu swyddogaethau o dan Adran 17 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 gan ystyried y mater o hygyrchedd i bawb gan gynnwys anghenion y rhai â nam ar y golwg a'r clyw a'r rheiny â symudedd cyfyngedig, ar gam cynnar yn y broses ddylunio. Mae'r ddogfen hon yn mynd i'r afael â'r materion hyn ac yn ceisio hybu amgylcheddau diogel a chynhwysol drwy ddyluniad da.
- 1.6 Un ystyriaeth yn unig yw dyluniad wrth wneud penderfyniad i gymeradwyo neu wrthod cais am ganiatâd cynllunio. Yn ogystal â mynd i'r afael â gofynion y canllaw hwn, bydd angen i gynigion datblygu ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r CDU ac ystyriaethau materol eraill ac mewn rhai achosion amgaeir Datganiad Effaith ar yr Amgylchedd ffurfiol.

2.0

amcanion dylunio da



TY NEWYDD:
MAREDUDD AB IESTYN

2.1 Nod cyffredinol NCT 12 o ran dyluniad a llunwedd tai yw:

- creu lleoedd gydag anghenion pobl mewn cof, sy'n arbennig ac yn parchu cymeriad lleol;
- hyrwyddo llunweddau a nodweddion dylunio sy'n annog diogelwch cymunedol a mynediad;
- canolbwyntio ar ansawdd y lleoedd a'r amgylcheddau byw ar gyfer cerddwyr yn hytrach na symudiad a pharcio cerbydau;
- osgoi safonau cynllunio anhyblyg ac annog llunweddau gyda ffyrdd culach;
- hyrwyddo effeithlonrwydd ynni mewn tai newydd;
- diogelu'r defnydd mwyaf effeithlon o dir gan gynnwys dwyseddau priodol; ac
- ystyried a chydwyso gwrthdaro posib rhwng y meini prawf hyn.


2.2 Mae NCT 12 yn nodi amcanion dylunio da ac mae'n annog proses ddylunio sy'n ceisio mynd i'r afael â'r nodau hyn o ddechrau prosiect. Mae amcanion dylunio da yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'r hyn sy'n gwneud lleoedd presennol yn ddeniadol ac yn gynaliadwy i fyw ynddynt.

2.3 Mae'r canllaw hwn yn ailddatgan yr amcanion dylunio da a nodwyd yn NCT 12 ac mae'n darparu ychydig o arweiniad syml ar sut gellir mynd i'r afael â phob amcan mewn datblygiad preswyl nodweddiadol er mwyn cyflawni datblygiad preswyl diogel, cynhwysol ac o safon uchel.

2.4 Bydd disgwyl i unrhyw un sy'n gwneud cais am ddatblygiad preswyl weithio gyda'r awdurdod cynllunio lleol a buddiolwyr i ddatblygu dyluniad sy'n rhoi sylw i bob amcan perthnasol. Dylent ddisgrifio sut mae eu dyluniad yn cyflawni pob amcan mewn 'datganiad dylunio' i'w gyflwyno gyda'r cais cynllunio. Gall arfarniad dylunio gan yr awdurdod cynllunio lleol olygu asesu pa mor dda y cyflawnwyd pob amcan cyn penderfynu a gefnogir cynnig ar sail dylunio ai peidio.

2.5 Y ffordd orau i ddiwallu anghenion y canllaw hwn yw datblygu gweledigaeth glir ar gyfer y safle sy'n mynd i'r afael â phob amcan a'u hintegreiddio.

amcan 1 | treftadaeth naturiol



topograffeg



coetiroedd a chysiau dŵr



pwysigrwydd ecolegol



ardal ddtblygu bosib

UCHOD: PROSES WEDI'I SYMLEIDDIO O YSTYRIED ADNODD TREFTADAETH NATURIOL A DIFFINIO ARDAL DDATBLYGADWY

Dylai datblygiad gael ei ddylunio i integreiddio gyda, amddiffyn a gwella gwerthoedd tirwedd a bioamrywiaeth y safle.

Y dirwedd yw un o adnoddau pwysicaf Cymru a rhaid ei hamddiffyn a'i gwella. Nid yw hyn yn golygu na ddylid cael newid, ond mae'n gofyn am atebion dylunio o ansawdd uchel sy'n ategu neu'n cyfrannu at gymeriad y dirwedd. Bioamrywiaeth yw un o flociau adeiladu bywyd a rhaid ei gadw a'i wella lle bynnag y bo hynny'n bosib.

arweiniad dylunio

- defnyddio mewnbwn arbenigol fel ecolegwyr, penseiri tirwedd a rheolwyr tirwedd i gynghori ar faterion treftadaeth naturiol;
- sicrhau dealltwriaeth drylwyr o brosesau naturiol (e.e. llifogydd) ac adnoddau treftadaeth naturiol sy'n berthnasol i'r safle a dylunio mewn ffordd gadarnhaol i gynnwys ardaloedd o bwysigrwydd sefydledig;
- dylunio nodweddion newydd i hyrwyddo bioamrywiaeth, er enghraifft drwy ddefnyddio coed brodorol neu ddatblygu gwerth ecolegol nodweddion draenio trefol cynaliadwy;
- sicrhau bod nodweddion gyda gwerth ecolegol neu dirwedd sefydledig yn cael eu h-amddiffyn wrth glirio'r safle ac adeiladu;
- gwneud iawn am unrhyw golled i fioamrywiaeth yn rhywle arall ar y safle neu oddi ar y safle os oes angen;
- rhoi mecanweithiau ar waith ar gyfer rheoli cadarnhaol a chynaliadwy ac ôl-ofal o dirwedd ac adnoddau ecolegol.

Bocs 1 | cynnwys treftadaeth naturiol

Yn aml, gwelir tirwedd ac adnoddau ecolegol fel cyfyngiadau ar ddatblygiad. Yn aml gallai'r gwrthwyneb fod yn wir. Gall cynnwys treftadaeth naturiol yn sensitif mewn gwirionedd helpu i roi hunaniaeth arbennig i safle a hyd yn oed mantais farchnata. Ni ellir gorbwysleisio gwerth coed ac elfennau eraill o dreftadaeth naturiol. Yn ogystal â rhoi ymdeimlad o aeddfedrwydd yn syth i ddatblygiad, mae tystiolaeth gynyddol yn nodi manteision iechyd a lles. Yn allweddol wrth fynd i'r afael â threftadaeth naturiol yw sicrhau ei bod yn rhan gadarnhaol o'r weledigaeth ar gyfer datblygu'r safle ac nid rhwystr i lunwedd safonol yn unig.



amcan 2 | crynoder

DATBLYGIADAU FFLATIAU YN NINBYCH Y PYSGOD. MAE DWYSEDD Y CYNLLUN YN GWEDDU I'R TREFLUN AC AR YR UN PRYD YN DARPARU DWYSEDD DEFNYDD SY'N CEFNOGI SWYDDOGAETHAU CANOL Y DREF.

Dylai datblygiadau ddefnyddio tir yn effeithlon a lle bo'n briodol, ddarparu dwysedd defnydd/poblogaeth sy'n gallu cynnal cludiant cyhoeddus a gwasanaethau cymunedol/masnachol.

Mae ffurfiau datblygu cryno yn lleihau faint o dir sy'n cael ei gymryd ac yn hybu dwyseddau sy'n ddigonol i gynnal gwasanaethau a chyfleusterau lleol. Mae hyn yn ei dro'n gwella'r ymdeimlad o gymuned ac yn lleihau'r angen am deithio. Nid yw hynny'n golygu y dylid anelu at y crynoder pennaf bob tro. Bydd yn amrywio yn ôl y cyd-destun ac mewn rhai lleoliadau, dwysedd isel fydd yr ateb dylunio mwyaf priodol.




arweiniad dylunio

- dylid sicrhau bod dwysedd yn gysylltiedig â'r weledigaeth ar gyfer y safle a dealltwriaeth o'i gyd-destun cymeriad trefol neu dirwedd - er enghraifft ai 'tynn a threfol' ydyw neu 'llac, deiliog a maestrefol'?
- pan fydd adnoddau ecolegol a thirwedd i'w hamddiffyn, dylid dylunio treftadaeth naturiol fel rhan o'r man gwyrdd, ond dylid trafod gyda'r awdurdod cynllunio lle mae'n briodol cynnal dwysedd cyffredinol safle drwy greu dwyseddau uwch mewn rhai ardaloedd;
- dylid ystyried defnydd cadarnhaol o ddwyseddau uwch, ffyrntiadau a phrif strydoedd mewn ardaloedd hygyrch neu o gwmpas crynadau gwasanaethau/cyfleusterau;
- dylid dylunio gofod agored fel rhan hanfodol o batrwm adeiladau a lleoli'r ddarpariaeth honno fel nad yw'n tynnu oddi wrth ddwysedd defnydd/poblogaeth o gwmpas crynadau gwasanaethau/cyfleusterau;
- dylid cynnwys parcio yn ôl safonau'r awdurdod cynllunio yn effeithlon, ond dylid dylunio peth hyblygrwydd i ganiatáu am dwf heb hybu niferoedd mwy a cholli crynoder.
- dylid sicrhau bod y ffurfiau datblygu cryno yn parhau i ganiatáu am fannau gwyrdd digonol a lle ar gyfer gwreiddiau coed ac i ganopïau ledi.



ACSONOMETRIG A CHYNLLUN SY'N DANGOS GRADDIAD POSIB MEWN DWYSEDD O GANOL I YMYL Y DATBLYGIAD



amcan 3


mynediad a hwylustod symud

Dylid creu llunweddau datblygiadau sy'n hygyrch i bawb yn y gymdeithas, gyda chysylltiadau i'r ardaloedd cyfagos, creu cysylltiadau newydd lle bo angen a sicrhau ei bod yn hawdd mynd o A-B yn y datblygiad.

Mae ystyriaethau mynediad a hwylustod symud i raddau helaeth yn llunio strwythur trefol unrhyw le. Maent yn penderfynu pa mor effeithiol mae'r lle'n cysylltu â'r ffabrig trefol a gwledig ac yn dylanwadu ar faterion allweddol megis pa mor hawdd yw hi i gerdded o fan i fan, gan leihau'r defnydd o geir a gwella bywyd a bywiogrwydd strydoedd a gofod. Mae'n hanfodol bod patrwm mynediad a hwylustod symudiad yn cael eu dylunio law yn llaw gyda mesurau i leihau troseddau a chreu strydoedd, gofodau ac adeiladau diogel.

arweiniad dylunio

- dylid sicrhau ymagwedd ddylunio ar y cyd lle mae cysylltiadau cerbyd, cerdded a beicio yn cael eu dylunio ar y cyd â'r 'dyluniad trefol' ar gyfer y safle. Yn ymarferol golyga hyn bod y bobl sy'n gyfrifol am briffyrdd a dylunio trefol yn gweithio'n agos gyda'i gilydd;
- dylid dylunio 'mynediad i bawb' gan gynnwys anghenion y rheiny â nam ar y golwg a'r clyw a'r rheiny â symudedd cyfyngedig;
- dylid dylunio i gysylltu â lleoedd a chymunedau cyfagos;
- dylid sicrhau mynediad diogel ac effeithlon ar gyfer pob math o gludiant, gwasanaethau brys a cherbydau gwasanaeth eraill ond lle bynnag y bo'n bosib rhoi blaenoriaeth i gerddwyr a beicwyr;
- dylid sicrhau mynediad da ar gyfer/i gludiant cyhoeddus pan fydd ar gael;
- dylid sicrhau bod llwybrau o fewn y safle hefyd yn caniatáu am gamau datblygu yn y dyfodol;
- dylid gwahaniaethu rhwng prif lwybrau, llwybrau eilaidd a llwybrau trydyddol drwy amrywio trawstoriad a dyluniad strydoedd. Gall hyn helpu i atgyfnerthu hierarchaeth strydoedd a gofodau sy'n gwneud y datblygiad yn haws ei ddeall (gweler eglurder isod). Gall hefyd fod yn bwysig wrth ddiffinio ardaloedd sy'n gyhoeddus a'r rheiny sydd ar gyfer preswylwyr yn unig, gan helpu i atal troseddau (gweler Bocs 2 ar dudalen 11);
- dylid sefydlu llunwedd sy'n athraidd ac yn gydgyssylltiedig o fewn y safle ond dylid osgoi unrhyw 'lwybr tarw' neu lwybrau a fydd yn cael eu tanddefnyddio neu a fydd heb ddim yn edrych drostynt;
- dylid dylunio ar gyfer cyflymderau cerbyd araf i sicrhau bod strydoedd a gofodau yn addas i gerddwyr a beicwyr eu defnyddio. Gellir gwneud hyn drwy leihau darnau syth o ffyrdd gyda gweledd blaen estynedig a thrwy ddefnyddio cyffyrdd ongl sgwâr ac isafswm ymlediad gweledol (2.4m) lle bo'n briodol.



amcan 4.0 | eglurder


Creu llunweddau datblygu sy'n hawdd eu deall a symud o'u cwrmpas.

Mae strwythur strydoedd a gofodau allweddol yn ffurfio prif ddelwedd lle ac mae'n gwneud hi'n hawdd i bobl leoli'u hunain a darganfod eu ffordd o amgylch. Mae'n helpu i greu hunaniaeth lle a chanfyddiad eraill ohono.

arweiniad dylunio

- dylid sicrhau bod swyddogaeth symudiad pob stryd yn cael ei hatgyfnerthu gan led y ffordd, dyluniad y tir cyhoeddus a graddfa, ffurf a dyluniad adeiladau cyfagos. Yn y ffordd hon, mae'n bosib creu hierarchaeth o strydoedd, pob un â rôl symudiad clir a hunaniaeth sy'n helpu pobl i ddarganfod eu ffordd o amgylch datblygiad;
- dylid dylunio i greu delwedd gadarnhaol ac ymdeimlad o le ar gyfer y datblygiad - osgoi hunaniaeth negyddol fel, er enghraifft 'yr ystâd oddi ar y gylchffordd';
- dylid cysylltu'r datblygiad â phatrwm presennol y dirwedd, y strydoedd a'r ffyrdd fel ei fod yn debyg i'r adeiledd trefol neu wledig presennol. Yn arbennig, dylid integreiddio â'r prif nodweddion llinol di-dor, fel elfennau o'r dirwedd bresennol, strydoedd, llwybrau cerdded a llwybrau beicio. Mae hyn yn helpu i atgyfnerthu patrwm ac eglurder cyd-destun y safle;
- dylid ystyried lleoliad a dyluniad tirwedd ac adeiladau yn ofalus i greu gofodau cofiadwy, tirnodau, fistas a phwyntiau ffocal;
- dylid cysylltu â thirnodau a golygfeydd presennol fel nodweddion cyfeiriedig;
- dylid sicrhau y byddai'n hawdd i breswylwyr y datblygiad arfaethedig gyfeirio rhywun at ble maent yn byw drwy gyfeirio at strydoedd, gofodau a thirnodau allweddol.

EGLURDER: MAE'R BRIF STRYD YN CREU ASGWRN CEFN Y DATBLYGIAD. MAE ADEILADAU TIRNOD YN DIFFINIO MYNEDIAD I'R DATBLYGIAD.



Bocs 2 | hierarchaeth strydoedd a gofodau

Mae datblygu hierarchaeth strydoedd a gofodau yn gyfle i gyfuno ystyriaethau mynediad a ffurf drefol ynghyd mewn cynllun cydlynol. Mae'n gofyn am weithio ar y cyd rhwng y dylunydd a'r peiriannydd y priffyrdd. Dylai patrwm y strydoedd a'r gofodau ddarparu'r mynediad gofynnol i gerbydau, cerddwyr a beicwyr ac ar yr un pryd, yn isrannu'r safle yn flociau sy'n creu ffurf drefol ddeniadol. Mae datblygu hierarchaeth yn awgrymu gwneud rhai strydoedd yn fwy arwyddocaol o ran symudiad a dyluniad trefol nag eraill fel eu bod yn 'sefyll allan' gan helpu pobl i leoli eu hunain o fewn datblygiad, er enghraifft gallu adnabod eu bod ar y 'brif stryd'. Yn aml, mae'r strydoedd mwyaf clir yn syml a heb fod yn orlawn gyda defnydd cyffredinol cyson o ddefnyddiau a thriniaeth bensaernïol. Mae hierarchaeth strydoedd a gofodau hefyd yn bwysig i atal troseddau drwy ddyluniad - gall strydoedd eilaidd a thrydyddol ar yr hierarchaeth a all fod yn darparu mynediad i'r prif ardaloedd tai, gael eu dylunio i atal tresbaswyr drwy gael llawer yn edrych drostynt a chreu ymdeimlad o amgylchedd lled breifat.

Dylai datblygu hierarchaeth gynnwys:

- cysylltu'r prif strydoedd o fewn y strwythur trefol (er enghraifft y 'Stryd Fawr') â'r brif swyddogaeth mynediad lle mae llif traffig yn caniatáu;
- gwahaniaethu rhwng strydoedd drwy amrywiaethau mewn croestoriadau, amgáu adeiladau a dylunio manwl er mwyn pwysleisio pwysigrwydd cymharol y stryd. Er enghraifft, gall y 'Stryd Fawr' fod â ffordd lydan, llwybrau cerdded sylweddol gan gynnwys coed a thai tri llawr ar ei hyd. Gall y stryd eilaidd fod â ffordd gulach, llwybrau cerdded lled safonol ac adeiladau 2 lawr wedi'u lleoli ar ymyl y llwybr cerdded. Mae dyfeisiau syml fel hyn yn gweithredu i wahaniaethu rhwng strydoedd a gofodau.

O fewn strwythur trefol unedig a hydraidd dylid cael cyfle am yr amrywiaeth llawn o strydoedd gan gynnwys ffyrdd pengaead. Serch hynny, dylid osgoi mathau o strydoedd unfath fel arfer.

Ar gyfer pob stryd a gofod yn yr hierarchaeth mewn datblygiad, dylai'r datblygwr/dylunydd fedru disgrifio'r canlynol:

- yn gyntaf, y cymeriad a ddymunir a'r rôl o fewn strwythur y datblygiad
- yn ail, ei hygyrchedd a'i swyddogaeth draffig;
- yn drydydd, ei nodweddion dylunio.

mynediad ac eglurder





MYNEDIAD: PATRWM GRID ATHRAIDD STRYD



HEOL BENGAEAD - LLWYBRAU CWMPASOG RHWNG A A B - ATHREIDDEDD GWael

ISOD: PATRWM ISDDOSBARTHIAID CAERDYDD - O FEWN LLUNWEDD Y GRID CEIR HIERARCHAETH SYMUDIAD GLIR A GEFNOGIR GAN RADDFA'R AMGYLCHEDD ADEILEDIG. MAE'R PRIF STRYDOEDD YN INTEGRIEDDIO Â GWEDDILL Y DDINAS, EGWYDDOR Y GELLIR EI DEFNYDDIO AR GYFER SAFLE O UNRHYW FAINT. SERCH HYNNY UN ELFEN YN UNIG YW MYNEDIAD AC EGLURDER O FFURF DREFOL. BYDD DEFNYDD, DALIADAETH A RHEOLAETH HEFYD YN DYLANWADU AR LWYDDIANT LLE.



UCHOD: GALL STRYDOEDD GAEL TRAWSTORIAU GWAHANOL I FYNEG I EU PWYSIGRWYDD PERTHNASOL O RAN EGLURDER CRYFHAU STRWYTHUR TREFOL.

amcan 5

cymeriad a chyd-destun

Dylai datblygu ymateb i gymeriad ac arbenigrwydd lleol cyd-destun y safle.

Mae cymeriad a chyd-destun unrhyw ddatblygiad yn cael ei greu gan batrymau a mathau arbennig lleol o ddatblygiad, tirwedd, diwylliant a bioamrywiaeth. Yn aml, mae'r elfennau hyn wedi datblygu dros gryn amser ac yn adrodd hanes ac esblygiad y safle. Mae hyn yn creu 'ymdeimlad o le'.

Dylai cymeriad a chyd-destun safle ddylanwadu'n gadarnhaol ar ddyluniad fel nad yw datblygiad yn disodli beth oedd yno'n flaenorol yn unig, ond yn adlewyrchu ac yn ymateb iddo. Os bydd cyd-destun rhai datblygiadau wedi'i beryglu eisoes gan ddatblygiadau cynharach ni ddylid ystyried hynny fel esgus i barhau'r hyn a wnaethpwyd yn y gorffennol. Dylid chwilio am gyfle i gyflwyno datblygiad cynaliadwy o safon sy'n adlewyrchu technolegau ac estheteg yr 21ain ganrif a chreu ymdeimlad cryf o le.

arweiniad dylunio

- Ni ddylid ymateb i ymddangosiad a chyd-destun ffisegol y safle yn unig, ond hefyd i'w hanes a'i bwysigrwydd diwylliannol. Gall hen fapiau fod yn ffynhonnell dda o wybodaeth ac ysbrydoliaeth ac yn aml maent yn dangos sut gwnaeth ffurfiau datblygu traddodiadol ystyried amodau lleol;
- dylid sicrhau bod y weledigaeth ar gyfer y safle yn ymateb i arfarniad o gymeriad a chyd-destun - gallu disgrifio pa fath o le fydd y datblygiad a sut bydd yn cysylltu â chyd-destun ffisegol, hanesyddol a diwylliannol yr ardal;
- dylid penderfynu a ddylid efelychu cymeriad neu ddyluniad presennol yn uniongyrchol i greu hunaniaeth newydd sy'n ei ategu;
- dylid datblygu'r weledigaeth ar gyfer y safle i gynnwys materion dylunio manwl fel tir cyhoeddus, nodweddion plot, trothwyau adeiladu etc;
- dylid diogelu neu wella elfennau o'r safle sy'n cyfrannu at gymeriad safle a chyd-destun pan fydd ganddynt ddyfodol cynaliadwy hir dymor fel rhan o'r datblygiad;
- dylid nodi patrwm strydoedd a gofodau yn narnau gorau a mwyaf llwyddiannus aneddiadau cyfagos a lle bo'n bosib, dylunio'r datblygiad arfaethedig i adleisio rhai o'r nodweddion hyn;
- dylid ymchwilio i led, dyfnder ac uchder adeilad y plot mewn enghreifftiau da o ddatblygiad nodedig lleol a gweld a yw'n briodol i feithrin patrwm tebyg o ffurf adeiladu;
- lle bo'n bosib, mabwysiadu unrhyw driniaeth nodedig, gyson a chadarnhaol lleol o'r ardal rhwng cefn y llwybr cerdded a blaen y tŷ (megis gerddi bach ar flaen y tŷ);
- dylid dylunio i annog datblygu cymeriad a chyfoeth gweledol (gweler bocs 3 a 4, tudalen 14);
- dylid defnyddio planhigion sy'n cyfrannu at fioamrywiaeth sy'n tyfu ac sy'n ffynnu'n lleol;
- dylid defnyddio sgiliau ac arbenigedd lleol lle bynnag y bo'n bosib - gall saerniaeth fedrus leol arwain at ddatblygiad sy'n unol â chymeriad lleol.



CHWITH I'R DDE: PORTH TYWYN | PENSEIRI GWALIA/PCKO | HEOL RAISDALE: LOYN & CO
Tŷ PREIFAT: DAVID THOMAS

Bocs 3 | cymeriad a chyd-destun: dyluniad blaengar

Yn aml, ceir canfyddiad bod dyluniad 'cyfoes' blaengar yn gwrthdaro â phatrymau sefydledig annedd ac arddulliau traddodiadol pensaernïaeth. Mewn realiti, mae arddulliau a thraddodiadau pensaernïol wedi esblygu lawer gwaith yn y gorffennol wrth ymateb i amodau economaidd a chymdeithasol newidiol. Nid oes rheswm pam na ddylai dyluniad sy'n defnyddio defnyddiau modern ac sy'n ymateb i estheteg gyfoes gyd-fynd â chyd-destun yn ogystal â ffurfiau mwy traddodiadol o ddatblygiad.

Pan fydd rhinweddau pensaernïaeth 'gyfoes' yn erbyn y 'traddodiadol' yn cael eu hystyried, mae'r drafodaeth yn aml yn troi o amgylch arddull yr adeilad ei hun. Yn aml bydd y ffactorau dylunio pwysicaf sy'n ymwneud â chymeriad a chyd-destun yn cael eu hesgeuluso'n llwyr. Pethau syml yw'r rhain fel gosodiad yr adeilad o'r ffordd, lled y plot ac uchder neu fertigedd adeilad. Os ymatebir yn briodol i'r rhain, gall pensaernïaeth sy'n defnyddio defnyddiau a dulliau adeiladu modern gydag arddull sy'n adlewyrchu estheteg yr 21ain ganrif, gadw at y cymeriad a'r cyd-destun yn gyfangwbl.

Bocs 4 | cymeriad a chyd-destun: cyfoeth gweledol

Nid yw cyfoeth gweledol yn golygu dyluniad ffwdanus, cymhleth na drud. Mewn gwirionedd, mae llawer o'r anheddau gorau a'r modelau ffurf adeiledig fel y teras Fictorianaidd yn syml iawn. Daw'r cyfoeth o geinder syml rhai manylion pensaernïol sylfaenol (fel ffenestri codi), graddfa a chymesuredd a hefyd naws ac ansawdd defnyddiau. Mae tir y cyhoedd hefyd yn bwysig gyda hindreulio naturiol defnyddiau naturiol o ansawdd da yn ychwanegu at gyfoeth dros amser. Ond daw cyfoeth hefyd o wybod ble i ychwanegu rhywbeth arbennig. Ychwanegu uchder i adeilad ar ei gorneli, cysylltiadau a ystyriwyd yn dda lle mae adeiladau'n troi corneli a ffasadau manwl ar ddiwedd golygfeydd yn ychydig o'r enghreifftiau lle gellir gwella cyfoeth cynllun. Mae'r canllaw hwn yn annog cyfoeth o ran manylion ym mhob cynllun preswyl.



CHWITH I'R DDE:

1. CYFOETH GWELEDOL MEWN TERAS SYML GYDA GERDDI BLAEN PERSONOL.
2. DEFNYDD CYNNIL O LIW A CHYFOSODIAD Â DEFNYDDIAU MODERN YNG NGHAERDYDD.
3. PREN, LLECHI A DUR MEWN DATBLYGIAD NEWYDD YM MHORTH TYWYN.

cymeriad a chyd-destun



UCHOD: YMAGWEDD DRADDODIADOL AT GYMERIAD A CHYD-DESTUN YN NHELEBENTREF CRUCYWEL. MAE'R DYLNWYR WEDI YMATEB YN GADARN I NAWS YR ANHEDDIAD PRESENNOL UCHOD. CHWITH: AILADRODDWYD DEFNYDDIAU TRADDODIADOL AC MEWN MANNAU, TRINIAETHAU FFRYNTIADAU HEFYD.



PLAS GWENFREWI: YMATEB CYFOES LLWYDDIANNUS A SENSITIF I ADEILAD HANESYDDOL.



amcan 6

parhad ac amgáu


Dylai ffryntiadau stryd parhaus edrych dros strydoedd a gofodau:

Mae amgáu a pharhad ffryntiad strydoedd yn creu gofodau lle gellir edrych drostynt, felly maent yn fwy diogel ac yn fwy pleserus i'w defnyddio. Maent yn darparu mwy o gyfle i ryngweithio'n gymdeithasol ac maent yn creu ymdeimlad cryfach o le a hunaniaeth hawdd ei hadnabod. Gall parhad ac amgáu hefyd gael eu creu drwy blannu coed a llwyni, waliau a ffensys. Dros y canrifoedd mae'r rhan fwyaf o'n haneddiadau gorau wedi'u seilio ar gysyniad o strydoedd a gofodau sydd wedi'u diffinio'n glir.

arweiniad dylunio

- dylid sicrhau bod y strwythur/llunwedd bloc yn caniatáu edrych dros, amgáu strydoedd a gofodau a gwahaniaeth clir rhwng ardaloedd cyhoeddus a phreifat. Yn ymarferol, blociau perimedr yw'r ffordd orau o gyflawni hyn;
- yn absenoldeb ffryntiad adeiladau, dylid defnyddio elfennau tirweddu caled a meddal lle bo angen darparu parhad ac amgáu i strydoedd a gofodau;
- dylid lleoli llefydd parcio i osgoi tarfu ar barhad ffryntiad strydoedd. Bydd hyn yn golygu osgoi parcio ar blotiau o flaen y tai gan ystyried parcio ar y stryd, parcio mewn cyrtiau neu ddarparu mannau parcio wrth ochrau'r tai. Serch hynny, sicrhewch y gall y perchenogion ceir edrych dros a goruchwyllo'r mannau parcio;
- dylid sicrhau uchder adeiladau digonol mewn perthynas â lled strydoedd i greu ymdeimlad o amgáu;
- dylid cydberthyn y prif lwybrau cerdded/beicio i'r ardaloedd yr edrychir drostynt fwyaf i greu tir cyhoeddus diogel;
- dylid gosod ffryntiadau a mynedfeydd byw sy'n cyfrannu at fywiogrwydd strydoedd/gofodau.
- dylid dynodi gofod cyhoeddus a phreifat yn glir ac osgoi gofod dros ben.

PARHAD FFRYNTIAU STRYD A GRŒWYD DRWY FFURFIAU
TERAS AR HYD Y STRYD FAWR. MEWN MANNAU ERAILL
ADEILADAU AR FLAEN Y PLOT I GYNNAL PARHAD.



parhad ac amgáu



ENGHREIFFTIAU UCHOD: YMAGWEDDAU SYML AT FFYNTIAD AC AMGÁU STRYDOEDD A GOFODAU. MAE'R ADEILADAU SY'N FFINIO Â'R STRYD YN CREU ARDAL GYHOEDDUS DDIOGEL Y GELLIR EDRYCH DROSTI.



MAE SAFLEOEDD LLENWI TREFOL CYFOES YN CYNNAL PARHAD LLINELL YR ADEILADAU AC AMGÁU'R STRYD. ER EI FOD YN BENSARNIOL NODDIG MAE'N GWEDDU Â'R STRYD HANESYDDOL: FFOTOGRAFF GAN MIKE BIDDULPH

EDRYCH DROS OFODAU GWYRDD YN DDA -YN HANFODOL I SICRHAU TIR CYHOEDDUS DIOGEL Y GOFELIR AMDANO.




amcan 7 | tir cyhoeddus

Sicrhau strydoedd a gofodau deniadol, diogel ac o ansawdd uchel i bob aelod o'r gymdeithas.

Tir cyhoeddus yw'r lle sy'n hygyrch yn gorfforol, yn weledol ac yn ddiwylliannol i'r cyhoedd. Mewn datblygiadau preswyl, mae'n cynnwys strydoedd, mannau gwyrdd, sgwariau a meysydd chwarae. Y tir cyhoeddus yw'r ardal lle ceir cyfarfodydd ar hap rhwng cymdogion, neu lle cynhelir digwyddiadau cymunedol. Mae'n hanfodol nid yn unig i ansawdd datblygiad ond ar gyfer pa mor bleserus a chymdeithasol ydyw i fyw ynddo.

arweiniad dylunio

- dylid cynllunio'r tir cyhoeddus fel rhan annatod o'r datblygiad ac nid fel rhywbeth ychwanegol. Golyga hyn gytuno ar faint o ofod cyhoeddus agored sydd ei angen ar yr awdurdod cynllunio a'i ddylunio fel rhan gadarnhaol o'r ffurf drefol, yn aml mewn cydweithrediad â mesurau i amddiffyn a rheoli treftadaeth naturiol ar y safle;
- dylid osgoi dreifiau preifat a rennir lle nad yw'r cyfrifoldeb i ofalu a chynnal y tir cyhoeddus yn gwbl glir;
- dylid sicrhau bod y tir cyhoeddus wedi'i wahanu'n glir o'r gofod preifat; dylid cyfuno dyluniad y tir cyhoeddus â'r ffurf adeiladu - er enghraifft creu ardaloedd dwysedd uwch gyda thair uwch o amgylch sgwâr neu ganolfan ffocal a allai wasanaethu fel ffocws cymunedol;
- dylid defnyddio palet cyfyngedig o ddefnyddiau naturiol os yn bosib sy'n galed, yn gadarn ac yn syml ar gyfer ardaloedd tirwedd caled, gan sicrhau y cytunwyd arnynt gyda'r awdurdod cynllunio;
- dylid creu gofodau amgaeedig syml gyda chelfi stryd cadarn syml, wedi'u dylunio'n dda ac wedi'u lleoli i leihau annibendod gweledol, rhwystr corfforol ac osgoi ymddygiad gwrthgymdeithasol;
- dylid ystyried graddfa a ffurf strydoedd a gofodau allweddol yn ofalus - ymwelwch â gofodau eraill o faint tebyg i sicrhau ei fod yn briodol i'r math o ddefnydd a gynlluniwyd;
- dylid lleihau ardaloedd 'tirwedd' nad oes ganddynt swyddogaeth ddefnyddiol fel rhan o'r tir cyhoeddus. Yn hytrach gwnewch yn fawr o effaith coed stryd a thirwedd tir preifat fel modd o gyflwyno gwyrddni i'r datblygiad.



DYLUNIWDYD TIR CYHOEDDUS FEL RHAN ANNATOD O'R CYNLLUN.

amcan 8

amrywiaeth ac amrywioldeb

Lle bynnag y bo'n bosib dylid cael cymysgedd o ddefnydd, ac amrywiaeth a dewis yn y math o dai a lleoedd.

Er y bwriedir y canllaw hwn yn bennaf ar gyfer ceisiadau am ddatblygiadau preswyl, mae angen cynyddol am ddefnydd cymysg er mwyn adeiladu cymunedau cynaliadwy. Er bod hyn yn arbennig o wir am ddatblygiadau mawr, gall hyd yn oed ddatblygiadau bach gynnig cyfle i gyfrannu at gynnalwydd lleol drwy ddarparu cyfleusterau megis siopau neu weithfannau.


ISOD:

BRADGY BRAINS, CAERDYDD
DATBLYGIAD DEFNYDD CYMYSG CANOL
DINAS LLWYDDIANNUS GYDA DEFNYDD
PRESWYL, HAMDDEN A MANWERTHU.



arweiniad dylunio

- dylid ystyried a oes cyfle i ddarparu defnydd arall, yn ychwanegol at ddefnydd preswyl, a fydd yn gwneud y datblygiad yn fwy hunangynhwysol gan leihau'r angen am ddefnyddio ceir; a/neu ddarparu cyfleusterau a gwasanaethau a fydd yn gwneud yr ardal leol yn fwy cynaliadwy;
- lle bydd defnydd arall yn addas, dylid ystyried mwy o ddefnyddiau bach yn hytrach nag un defnydd safle mawr. Er enghraifft, bydd amrywiaeth o fusnesau a siopau bach yn helpu i fywiogi strydoedd a gofodau cyhoeddus yn well nag un archfarchnad fawr;
- dylid cymysgu'r defnydd yn fertigol yn ogystal ag yn llorweddol. Er enghraifft, gellir ystyried defnydd preswyl neu fusnes uwchben defnydd manwerthu a darparu unedau byw-gwaith;
- gellir caniatáu ar gyfer newid defnydd unedau'r lloiau gwaelod yn y dyfodol mewn lleoliadau allweddol megis y rhai nesaf at fannau cyhoeddus a chorneli strydoedd. Gallai hynny olygu caniatáu uchder llawr i'r nenfwd uwch a gofodau hyblyg ar loriau gwaelod adeiladau o'r fath;
- dylid osgoi defnydd ar y llawr gwaelod na fyddai'n darparu ffyrntiad byw megis adeilad mawr heb agoriadau drysau neu ffenestri ar lefel llawr gwaelod;
- gellir darparu deiliadaethau cymysg a mathau o adeiladau mewn datblygiadau sy'n ddigon mawr i hybu datblygiad cymuned amrywiol gyda chyfleoedd byw ar gyfer holl aelodau'r gymdeithas. Gellir gwasgaru elfennau tai 'fforddiadwy' i ddiwallu gofynion y landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Fel arfer, mae hyn yn golygu mewn clystyrau.
- gellir cadw hen adeiladau i ychwanegu diddordeb ac amrywioldeb i'r datblygiad.



DEFNYDDIAU DI-BRESWYL
WEDI'U CYFUNO WRTH
WRAIDD DATBLYGIAD.
GWASGARU TAI
FFORDDIADWY.

amcan 9 | y gallu i addasu

Dylid dylunio adeiladau a gofodau er mwyn iddynt fod yn hyblyg ac yn hawdd eu haddasu a'u defnyddio ar gyfer amrywiol ddibenion dros amser.

Mae'r defnydd o adeiladau llwyddiannus yn gallu newid sawl gwaith yn ystod eu hoes ac mae hyblygrwydd yn hanfodol i gynnaladwyedd tymor hir a hirhoedledd.


PLAS GWENFREWI:
GALL ADEILADAU NEWID DEFNYDD
SAWL GWAITH YN YSTOD EU HOES A
DYLID EU DYLUNIO I FOD YN HYBLYG
AC YN HAWDD EU HADDASU FEL Y
PROFIR GAN YR HEN GAPEL HWN.



arweiniad dylunio

- gellir creu llunwedd stryd neu strwythur bloc sy'n cydweddu â'r ffabrig trefol neu wledig o gwmpas ac sy'n caniatáu'r hyblygrwydd pennaf ar gyfer ailddatblygu yn y dyfodol. Ar safleoedd lle mae topograffeg yn caniatáu, mae'n bosib mai grid hydraidd a chysylltiedig fydd y ffordd orau o wneud hyn. Dylid edrych ar rannau gorau aneddiadau presennol yr ardal ac ystyried sut a pham maent wedi llwyddo i oroesi.
- gellir dylunio strydoedd a gofodau yn gynlluniau cryf, syml a dirodres a chaniatáu ar gyfer amrywiaeth o ddefnydd posib.
- dylid dylunio adeiladau i fod yn hyblyg ac yn hawdd eu haddasu. Yn ymarferol mae hyn yn golygu darparu lle i ehangu ynghyd â ffurfiau adeiladu y mae'n bosib eu haddasu a'u hehangu megis adeiladwaith ffrâm. Byddai dylunio unedau preswyl â nenfydau uwch ar lefel y llawr gwaelod yn caniatáu addasu at ddefnydd manwerthu yn y dyfodol er enghraifft. Gellir cymhwyso'r cysyniad hwn hefyd i ofod mewnol y gellir ei addasu i ateb anghenion defnyddwyr gwahanol yn y dyfodol.
- dylai gofodau agored cynlluniedig gael eu dylunio i fod yn hyblyg ac i'w defnyddio ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddiau yn ystod eu hoes.
- lle bynnag y bo'n bosib dylid dylunio ar gyfer hirhoedledd

STRWYTHUR BLOC CYMWYSADWY
SY'N GALLU CYMHWYSO YSTOD O
SENARIOS DATBLYGU



amcan 10

effeithlonrwydd adnoddau

Dylai adeiladau a thirwedd ddefnyddio cyn lleied o adnoddau â phosib wrth eu hadeiladu, eu gweithredu a'u cynnal.

Mae'r ynni a ddefnyddir wrth adeiladu a gweithredu adeilad yn cyfrif am 50% o ollyngiadau CO₂ y DU. Gall dyluniad cychwynnol adeilad effeithio'n sylweddol ar y defnydd o ynni yn ystod ei oes. Gellir lleihau'r defnydd o ynni hefyd drwy wneud y defnydd gorau o adeiladau a defnyddiau sydd eisoes ar y safle a gweithio gyda thopograffeg i greu microhinsoddau addas, a defnyddio plannu coed a lleiniau cysgodi i wella'r microhinsawdd.

ISOD: CAFODD NODWEDDION CYNALIADWY EU HADEILADU I MEWN I FOYER ABERTAWE GAN BENSEIRI GWALIA/PCKO O'R DECHRAU.



arweiniad cynllunio

- dylid ystyried ailddefnyddio'r adeiladau sydd eisoes yn bodoli ar y safle bob amser lle bo hynny'n ymarferol ac ailgylchu'r defnyddiau a gasglwyd o ddymchwel a chlirio'r safle;
- 'dylunio goddefol' yw'r ffordd orau o gyflawni effeithlonrwydd ynni. Mae hyn yn golygu ystyried gorweddai adeiladau i greu'r cydbwysedd cywir rhwng cysgod a manteisio ar wres yr haul, y lefelau uchaf posib o inswleiddio, ffurfiau adeiladu cryno, defnyddio awyru naturiol a maint ffenestri etc. i gyflawni'r swmp thermol a'r aerglosrwydd priodol;
- dylid ystyried defnyddio defnyddiau sy'n wydn, sy'n cael eu cynhyrchu mewn modd cynaliadwy, a'r lefelau ynni a ddefnyddiwyd wrth eu cynhyrchu a'u cludo i'r safle yn isel. Byddai hynny'n ffafrio defnyddio defnyddiau y gellir eu cael yn lleol. Serch hynny, gallai hefyd olygu defnyddio defnyddiau 'ynni isel' iawn a wnaed rhywle arall neu a gludir i'r safle fel elfennau parod. Dylid annog defnyddio defnyddiau a chydannau a ailddefnyddiwyd/ ailgylchwyd yn gadarnhaol.
- dylid dylunio systemau draeniad trefol cynaliadwy o'r cychwyn cyntaf yn hytrach nag fel ôl-ystyriaeth. Dylid integreiddio pyllau draenio, pyllau cydbwyso, corslwyni ac elfennau draeniad trefol cynaliadwy eraill bob amser fel rhan gadarnhaol o'r llunwedd lle bynnag y bo'n bosib;
- ar safleoedd neu ardaloedd datblygu mwy, dylid ystyried systemau gwresogi carbon isel a gosodiadau ynni adnewyddadwy (NCT 8) megis gwresogi dŵr ag ynni solar a defnyddio biodanwyddau. Dylid ystyried hefyd defnyddio ynni gwres cyfunol fel ffynhonnell wres ac ynni bosib. Dylid dylunio'r rhain fel rhan o'r isadeiledd o gyghwyn cyntaf y prosiect;
- dylid dylunio adeiladau a gofodau y tu allan i ddarparu lle am gyfleusterau ailgylchu a chompostio effeithiol;
- dylid cadw a diogelu pridd wyneb presennol y safle lle bo hynny'n bosib. Gellir ei ailddefnyddio mewn cynlluniau tirlunio a lleihau'r angen am fewnforio pridd wyneb ychwanegol neu ddefnyddio dulliau gwella pridd;
- dylid dylunio tirweddau a fydd yn ffynnu dan amodau microhinsoddol a phridd lleol. Fel arfer bydd hyn yn gofyn am ddefnyddio rhywfaint o'r rhywogaethau cynhenid sy'n digwydd yn lleol neu rywogaethau sydd wedi addasu'n dda i amodau lleol;
- dylid cyfeirio at ffynonellau technegol ar sut y gellir cyflwyno effeithlonrwydd adnoddau, er enghraifft canllaw'r WWF ar dai cynaliadwy.

3.0

y broses ddylunio

3.0.1 Heb broses ddylunio resymegol, gyfansawdd a chynhwysfawr bydd bron yn amhosib cyflawni dylunio da. Mae proses ddylunio effeithiol yn cynnwys:

- ymgynghori a chynnwys effeithiol drwy gydol y prosiect
- cyfnod cychwynnol
- adolygu polisi
- arfarnu cyd-destun a safle
- creu gweledigaeth
- datblygu a mireinio'r dyluniad

Bydd awdurdodau cynllunio yn disgwyl i unrhyw un sy'n gwneud cais am ddatblygiad preswyl ddisgrifio'r broses ddylunio ac yna mewn datganiad dylunio y dylid ei amgáu gyda phob cais. Felly, fe'ch cynghorir i gytuno ar y broses ddylunio gyda'r awdurdod cynllunio cyn datblygu cynlluniau ar gyfer unrhyw safle.

3.1 ymgynghori a chynnwys

3.1.1 Dylai dyluniadau gael eu datblygu drwy ymgynghori â, a chynnwys yr awdurdod cynllunio, buddiolwyr lleol a'r gymuned. Mae ymgynghori'n hanfodol er mwyn mynd i'r afael â phryderon cynllunio a dylunio allweddol cyn datblygu'r dyluniad yn rhy bell. Dylid ymgynghori'n gyntaf â'r awdurdod cynllunio i ddeall yn llwyr y materion y bydd angen eu trafod wrth ddatblygu dyluniad. Gall y cyfarfod cychwynnol hwn egluro pa sgiliau y bydd eu hangen ar y tîm dylunio, buddiolwyr eraill i ymgynghori yn ogystal â chadarnhau cysylltiadau, a rhaglen ar gyfer cyflwyno'r cais. Materion allweddol i'w hystyried wrth gyflawni rhaglen ymgynghori a chyfranogi yw:

- datblygu'r rhaglen ymgynghori/cynnwys mewn cytundeb â'r awdurdod cynllunio i adlewyrchu pwysigrwydd lleol neu faint y prosiect. Yn yr achosion mwyaf syml, gall hyn olygu hysbysu'r cymdogion a thrafod pryderon gyda hwy'n unig. Ar gyfer prosiectau mwy, gall olygu cyfres fwy helaeth o ddigwyddiadau a chyfarfodydd fel digwyddiadau gweledigaeth, ymholi drwy gyfarfodydd grwp dylunio neu ffocws;
- ystyried defnyddio arbenigwyr sy'n brofiadol wrth reoli a hyrwyddo ymgynghori a chynnwys;
- gosod paramedrau'r broses ymgynghori ac ymrwymo'n glir i gyfranogwyr ar y dechrau ac egluro'r trafferthion fel nifer a dwysedd tai a ddyrannwyd ar gyfer y safle. Dylid osgoi ail-drafod prif egwyddorion fel a ddylai'r safle fod wedi cael ei nodi am ddatblygiad yn y lle cyntaf;



LLUNIAU: BYDD LEFEL YR YMGYNGHORI'N AMRYWIO O BROSIECT I BROSIECT. AR GYFER PROSIECTAU MAWR NEU SENSITIF GALL DATBLYGU GWELEDIGAETH A DYLUNIO GYNNWYS 'YMHOLI YN ÔL DYLUNIAD' LLE MAE BUDDIOLWYR YN RHAN O'R BROSES DDYLUNIO. GELLIR ANNOG Y RHEINY A YMGYNGHORIR Â HWY I DDARPARU MEWNBNW CREADIGOL MEWN AMRYWIAETH O FFYRDD.

- dylid bob amser cynnal trafodaethau cyn cyflwyno cais i'r awdurdod cynllunio i gadarnhau'r weledigaeth (3.5) ar gyfer y safle cyn penderfynu ar gynlluniau;
- dylid ymgynghori â'r awdurdodau perthnasol gan gynnwys yr heddlu (drwy swyddog cyswllt pensaernïol lleol), Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru etc;
- dylid darparu cyfleoedd i'r gymuned a buddiolwyr roi mewnbwn i'r broses ddylunio cyn paratoi cynlluniau fel bod cyfle go iawn i ymateb i syniadau ac awgrymiadau;
- dylid hysbysu pobl bob amser o sut bydd eu sylwadau/mewnbwn yn cael eu defnyddio o'r dechrau a rhwch adborth iddynt ar sut/os ystyriwyd eu sylwadau;
- dylai ymgynghori a chynnwys fod yn rhan o ymagwedd gydweithredol lle mae'r tîm dylunio, awdurdod cynllunio a buddiolwyr yn dylanwadu ar yr ateb dylunio terfynol.

3.2 cyfnod cychwynnol

3.2.1 Y ffordd orau o gynhyrchu datblygiad cynaliadwy a ddyluniwyd yn dda yw defnyddio tîm dylunio da. Ar y cyfan, bydd dylunwyr da'n cynhyrchu dyluniadau da ac yn derbyn caniatâd cynllunio cynt. Wrth ystyried pa ymgynghorwyr i'w defnyddio dylid ystyried y canlynol bob tro:

- defnyddio ymgynghorwyr â gyrfa lwyddiannus a'r sgiliau i gyflwyno datblygiadau cynaliadwy sydd wedi'u dylunio'n dda; a
- dewis ymgynghorwyr ar sail safon yn ogystal â phris - yn y pen draw bydd dylunydd da yn gost effeithiol a dylai fedru sicrhau caniatâd cynllunio'n effeithlon.

3.3 adolygu polisi

3.3.1 Mae'n rhaid i ddatblygwyr a dylunwyr ddeall cyd-destun y polisi cynllunio y maent yn gweithio ynddi.

3.3.2 Yn benodol dylid ystyried y canlynol:

- Polisi ac arweiniad cenedlaethol;
- Polisiâu'r Cynllun Datblygu yn y Cynllun Datblygu;
- Arweiniad Cynllunio Atodol Arall;
- Safonau a rheoliadau sy'n berthnasol yn ardal yr Awdurdod Cynllunio Lleol;
- Cyngor gan ymgynghoreion statudol;



NCT 12

- Cyfyngiadau cyfreithiol/cynllunio (e.e. Hawliau Tramwy, Adeiladau Rhestredig, Gorchmynion Diogelu Coed, hawddfreintiau etc).
- Cynlluniau lleol megis paneli dylunio ymgynghorol, grwpiau ymgynghorol Ardaloedd Cadwraeth etc a allai fod yn ffynhonnell o gymorth a gwybodaeth.
- Hanes cynllunio gan gynnwys penderfyniadau cynllunio ac apeliadau blaenorol a chanlyniadau ymgynghoriadau cyhoeddus, yn arbennig o ran materion dylunio.
- Arweiniad dylunio anstatudol.

3.4 arfarnu cyd-destun a safleoedd

3.4.1 Er mwyn mynd i'r afael yn ddigonol â phob egwyddor dylunio, mae'n rhaid i'r dylunydd nodi rhai o nodweddion y cyd-destun a'r safle, eu cofnodi ac ymateb iddynt. Ceir y priodweddau cyd-destun a safleoedd sy'n hanfodol i ddeall lle a chaniatáu datblygu isod:

- ei hanes a phatrwm twf;
- y dirwedd a bioamrywiaeth;
- y proffil cymdeithasol ac economaidd;
- patrymau symudiad a lleoliad cyfleusterau a gwasanaethau lleol;
- cyfyngiadau a chyfleoedd y safle, (gan gynnwys topograffeg a'r adeiladau sydd eisoes yn bodoli)

3.4.2 Ni fydd pob un o'r rhain yn berthnasol i bob prosiect. Gall yr awdurdod lleol gynghori ar y prif faterion safle a chyd-destun y dylid canolbwyntio arnynt.

3.4.3 Staff proffesiynol ddylai ymgymryd ag arfarnu safle a chyd-destun bob amser. Gall y rhain gynnwys:

- | | | |
|--------------------|---------------|-------------------|
| ■ pensaer tirlunio | ■ peiriannydd | ■ cynllunydd tref |
| ■ dylunydd trefol | ■ ecolegydd | ■ tyfwr coed |
| ■ pensaer | ■ syrfêwr | |

3.4.4 Lle bo'r rheiny wedi'u cwblhau, dylid cyfeirio at Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth, Strategaethau Cadwraeth, astudiaethau LANDMAP ac eraill a wnaed gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol oherwydd gallai'r rhain fod yn ffynhonnell ddefnyddiol o ddata sy'n ymwneud â'r safle a'r cyd-destun. Mae astudiaethau LANDMAP fel arfer yn cynnwys gwybodaeth am agweddau golygfaol, synhwyrdd, ecolegol, archeolegol a diwylliannol ardal.

Hanes a phatrwm twf



CHWITH: DYLAU AROLWG
ECOLEGOL RAGFLAENU
DATBLYGIAD POB SAFLE. MAE
SAWL RHYWOGAETH WEDI'I
DIOGELU DAN Y GYFRAITH AC
MAE TARFU ARNYNT YN
DROSEDD.

- 3.4.5 Gall y ffordd y mae lle wedi datblygu ac esblygu yn y gorffennol awgrymu sut dylai newid ddigwydd yn y dyfodol. Er enghraifft, a yw ffurf lle'n adlewyrchu patrwm twf llinellol cynyddol? Gallai hyn roi pwysigrwydd arbennig i ffyrntiau strydoedd a gosodiad adeiladau o'r ffordd ar hyd prif ffyrdd. Gall dadansoddi patrymau twf gynnig awgrymiadau pwysig o ran delio â nodweddion safle megis llethrau serth neu ficrohinsawdd gwael; sut aed i'r afael â'r ffactorau hyn yn y gorffennol? Sut dylem ddelio â hwy gan ddefnyddio technegau modern?
- 3.4.6 Y ffordd orau o arfarnu hanes a phatrymau twf yw drwy edrych ar gynlluniau hanesyddol a heddiw, ynghyd â chynlluniau topograffeg a daearegol.


Mae'r ffactorau i'w hystyried wrth arfarnu hanes a phatrwm twf yn cynnwys y canlynol:

- cychwyniad a datblygiad hanesyddol yr anheddiad yn ei osodiad naturiol;
- ffurf yr anheddiad a'r elfennau sydd ar ôl o batrwm strydoedd hanesyddol neu israniadau plotiau;
- ardaloedd o gymeriad treflun arbennig;
- llunwedd, ffurf, graddfa a defnydd o adeiladau a gofod arbennig;
- nodweddion nodweddiadol plot adeiladu (dwysedd, maint, siâp, cyfrannedd adeilad i ofod etc.);
- triniaeth nodweddiadol o osodiadau adeiladau o'r ffordd, ffyrntiau a therfynau;
- traddodiadau adeiladu lleol/rhanbarthol (ffurf ac arddull bensaernïol), defnyddiau a manylion dylunio;
- y lliwiau a'r gweadau cyffredin neu nodweddion arbennig neu hynod eraill;
- adeiladau, tirnodau, pyrth pwysig a golygfeydd a fistâu pwysig;

Treftadaeth Naturiol

- 3.4.7 Gellir adlewyrchu cymeriad ardal mewn datblygiadau newydd drwy batrwm ffurf adeiladau a'i berthynas â thopograffeg; ffurf a'r defnyddiau a ddefnyddiwyd yn yr adeiladu; a'r ymagwedd at ddylunio tirwedd. Beth sy'n bwysig o ran cymeriad tirwedd a sut dylai'r datblygiad arfaethedig ymateb iddo?
- 3.4.8 Dylid deall bioamrywiaeth safle i'w ddatblygu yn fanwl bob amser a bydd arolwg ar safle fel arfer yn angenrheidiol. Gellir cael gwybodaeth am gyd-destun bioamrywiaeth safle hefyd o ffynhonnell fel Arolwg Ecolegol Cam 1 Cyngor Cefn Gwlad Cymru, drwy siarad â grwpiau ecolegol a bywyd gwyllt neu drwy arolwg ecolegol newydd.

Mae'r ffactorau i'w hystyried wrth arfarnu treftadaeth naturiol yn cynnwys y canlynol:



CHWITH: MAP HANESYDDOL O LANTRISANT, PATRWM BLOC 1885 A HEDDIW - GALL YSTYRIED SUT MAE ANHEDDIAD WEDI TYFU HELPU I NODI'R PATRWM MWYAF PRIODOL AR GYFER TWF NEWYDD A'R NODWEDDION GOFODOL PWYSICAF I'W CADW.

- gwelededd y safle
 - rôl/amlygrwydd y safle o ran golygfeydd pwysig yn yr ardal y mae'n bosib gweld y safle ohonynt;
 - cymeriad y dirwedd o gwmpas y safle a'r nodweddion pwysig sy'n cyfrannu at hynny;
 - rôl y safle, os o gwbl, yn cyfrannu at gymeriad y dirwedd o'i gwmpas;
 - sut mae'r safle'n cysylltu â'r dirwedd o'i gwmpas (e.e. ei safle mewn perthynas â thopograffeg, wyneb-wedd, cymeriad ymylon, amlygrwydd gweledol etc.);
 - y nodweddion sy'n diffinio ei leoliad naturiol a'i ymylon naturiol (e.e. codiad tir, cymoedd, blociau o llystyfiant);
 - rôl y safle, os o gwbl mewn perthynas â lleoliad anheddiad cyfagos;
 - dylid parchu tirnodau, golygfeydd a nenlinellau;
 - mannau a choridorau gwyrdd, coed, perthi, elfennau â'r eraill a nodweddion naturiol (e.e. llystyfiant lled naturiol, cyrsiau dŵr a gwlyptiroedd etc);
 - cymeriad a chyflwr terfynau'r safle a'r berthynas rhwng y safle a'r tirweddau a'r trefluniau cyfagos;
 - dylid cadw nodweddion cadarnhaol y dirwedd a'r llystyfiant lleol yn union gerllaw'r safle, gan gynnwys ei safon, ei gyflwr, ei raddfa, yr amgáu, a chysylltiadau pwysig (e.e. coridorau gwyrdd);
 - nodweddion a dylanwadau ymwithiol sy'n tynnu oddi ar gymeriad ac ansawdd y safle a'r angen i'w lliniaru fel rhan o'r cynigion datblygu;
 - arolwg ecolegol o'r safle;
- adolygu'r data ecolegol sy'n ymwneud â'r safle, er enghraifft Cam 1 yr arolwg ecolegol.

Proffil cymdeithasol ac economaidd

3.4.9 Gall dealltwriaeth o broffil cymdeithasol ac economaidd ardal fod yn ddefnyddiol ar gyfer safleoedd mawr neu gymhleth, ond efallai na fydd angen hynny ar gyfer safleoedd penodol llai. Gall helpu'r datblygwr i gyflwyno cymysgedd o ddeiliadaeth eiddo sy'n diwallu anghenion penodol yr ardal leol. Mae'n bwysig iawn ar gyfer datblygiad defnydd cymysg lle mae dealltwriaeth dda o'r farchnad fusnes leol yn hanfodol i gynllunio'n effeithiol ar gyfer defnydd cyflogaeth ac adwerthu. Gall deall materion sy'n ymwneud â throseddau ac anhrefn hefyd fod yn bwysig iawn ar ddechrau'r prosiect a gall helpu'r dylunydd i sicrhau bod y datblygiad yn cyfrannu at gymuned ddiogel.

I'R DDE: MAE'N HANFODOL DEALL
PA MOR WELEDOL YW SAFLE A
PHA EFFAITH FYDD AR Y
GOLYGFYDD. NID OES YN RHAI
I DDATBLYGIAD GAEL EFFAITH
WELEDOL ANDWYOL OND OS NA
FYDD DYLUNIO GOFALUS GALL
NIWEIDIO CYMERIAD Y DIRWEDD
YN SYLWEDDOL.



Ffactorau i'w hystyried wrth arfarnu'r profil cymdeithasol ac economaidd:

- poblogaeth yr ardal;
- anghenion cymdeithasol ac economaidd - sut gall y datblygiad arfaethedig gyfrannu;
- materion sy'n ymwneud â throedd ac anhrefn
- galwadau a diffygion y farchnad;

Patrymau Symudiad a Defnydd

3.4.10 Mae angen datblygu cynigion datblygu o safbwynt dealltwriaeth glir o'r rhwydwaith symudiad yn y cyffiniau er mwyn eu dylunio'n gadarnhaol i ategu hynny.

Ffactorau i'w hystyried wrth arfarnu patrymau symudiad a defnydd:


- y patrymau symudiad sy'n bodoli a chyfleoedd i gysylltu â'r rheiny;
- patrwm a dosbarthiad y defnyddiau gan gynnwys parciau, ysgolion, siopau a chyfleusterau eraill megis cludiant cyhoeddus;
- rhwystrau i symudiad (heolydd, cyrsiau dŵr etc);
- hawliau tramwy a llwybrau eraill a thystiolaeth o ddefnydd hamdden neu arall ar y safle;
- prif fannau mynediad posib a chysylltiadau mynediad eraill posib (e.e. llwybr troed a llwybr ceffyl) o'r ardaloedd cyfagos i'r safle;
- cysylltiadau posib i gamau dilynol y datblygiad

Cyfyngiadau a chyfleoedd y safle

3.4.11 Bydd angen nodi nodweddion ffisegol y safle a'u cofnodi er mwyn i'r datblygiad fynd yn ei flaen yng nghyd-destun gwybodaeth gyflawn o holl nodweddion y safle, archeoleg, isadeiledd, gwasanaethau a chyflwr y tir.

Ffactorau i'w hystyried wrth arfarnu cyfyngiadau a chyfleoedd safle:

- nodweddion ffisegol y safle (e.e. goleddf/gogwydd, wyneb-wedd, priddoedd, cyflwr y tir, draeniad, microhinsawdd etc.) a all effeithio ar faint y datblygiad;
- archeoleg;
- lleoliad a chyflwr y nodweddion sydd i'w cadw (e.e. coed, prysgwydd, perthi, pyllau, cyrsiau dŵr, adeiladau, strwythurau, waliau etc.);



- presenoldeb a lleoliad gwasanaethau (e.e. draeniau, carthffosydd, pibellau, cyfleustodau, fforddfreintiau, ceblau trydan etc.);
- lleoliad adeiladau cyfagos, yn enwedig tai, er mwyn sicrhau bod y datblygiad yn amddiffyn y mwynderau sy'n bodoli.

3.5 creu gweledigaeth

- 3.5.1 Dylai pob prosiect gael ei gefnogi gan ddatganiad dylunio gan gynnwys 'gweledigaeth' sy'n disgrifio'n glir y rôl arbennig a chymeriad nodedig y mae'r datblygiad yn ceisio ei gyflawni.
- 3.5.2 Nid yw gweledigaeth yr un peth â dyluniad; y syniad sydd wrth wraidd y dyluniad ydyw; er enghraifft, a fydd safle'n cael ei ddatblygu fel 'maestref ddeiliog, lac' neu 'bentref trefol tynn'. Nid yw gweledigaeth o angenrheidrwydd yn golygu rhywbeth cyffrous neu anarferol. Mewn gwirionedd gallai gweledigaeth olygu'n syml 'creu rhan ddeniadol o'r dref sy'n cydweddu â'r ardal leol'. Y weledigaeth fydd yn bwydo holl elfennau'r dyluniad. Er enghraifft, os yw datblygiad yn 'dynn a threfol' mae'n debygol y bydd o ddwysedd uchel gyda strydoedd a gofodau wedi'u hamgáu'n dda. Os yw'n 'llac, deiliog a maestrefol' gallai fod yn eang/helaeth, gyda llawer o goed ac o ddwysedd isel.
- 3.5.3 Dylai datblygu'r weledigaeth ragflaenu datblygiad y dyluniad. Mae'r broses o ddatblygu gweledigaeth yn amser ardderchog i gynnwys yr awdurdod cynllunio, y gymuned a buddiolwyr eraill yn y broses ddylunio. Dylai unrhyw un sy'n gwneud cais am ddatblygiad preswyl newydd gael gweledigaeth ar gyfer y safle sy'n ateb y cwestiynau canlynol:

- pa fath o le y dylai'r safle hwn fod gan ystyried ei nodweddion a'i gyd-destun treftadaeth naturiol?
- pa eiriau neu ymadroddion allweddol sy'n disgrifio'r rhinweddau y gobeithir y bydd y datblygiad yn eu cynhyrchu?
- pa gymeriad a defnydd fyddai'n cyflawni'r rhinweddau hyn?

3.5.4 Weithiau rhaid meddwl yn anturus a bod yn fentrus. Fel arfer syniadau syml a chadarn yw'r gorau.

3.6 datblygu a mireinio dyluniadau

3.6.1 Bydd datblygu dyluniad yn ymwneud ag ystyried sut gellir cyflawni pob egwyddor ddylunio a chynnaladwyedd ar safle penodol.

3.6.2 Dylai datblygwyr a dylunwyr siarad â'r awdurdod lleol cyn datblygu cynigion manwl. Byddai trafodaeth cyn cyflwyno cais yn helpu'r awdurdod i lunio barn ar ddatblygiad yn y cyfnod cynnar. Mewn trafodaeth cyn cyflwyno cais dylai'r dylunydd neu'r datblygwr gyfleu'r canlynol:

- cefndir polisi;
- canlyniadau arfarnu'r safle a'r cyd-destun;
- adroddiadau unrhyw ymgynghoriadau perthnasol;
- 'y weledigaeth' gychwynnol ar gyfer datblygu'r safle mewn ymateb i gefndir polisi, y safle a'i gyd-destun, diben y datblygiad a'r dymuniad i greu bywyd o ansawdd uchel i breswylwyr; a;
- rhoi awgrym cychwynnol sut bydd pob un o'r amcanion dylunio a chynnaladwyedd yn cael eu cyflawni.

3.6.3 Gellir trefnu'r wybodaeth hon mewn datganiad cyn cyflwyno cais

3.6.4 Yn ddelfrydol bydd y datblygwr a'r awdurdod lleol yn gweithio gyda'i gilydd i gynhyrchu datganiad gweledigaeth ac ymagwedd gytunedig o ran yr egwyddorion dylunio cyn mynd ymlaen i ddyluniadau datblygu manwl. Bydd hyn yn sicrhau bod pawb yn glir ynglyn â nodau ac amcanion y prosiect o'r dechrau.

Y broses ddylunio wedi'i symleiddio		Egwyddor Ddylunio
	01 Datblygu a chychwyn y broses ymgynghori 02 Sefydlu tîm dylunio integredig - dechrau ar greu gweledigaeth	
	03 Ystyried gwahanol raniadau sylfaenol elfennau'r datblygiad. Er enghraifft, ar gyfer safleoedd mawr, a oes ardaloedd a allai fod o ddwysedd uwch oherwydd eu bod yn agos at gyfleusterau, cludiant cyhoeddus neu gysylltiadau da eraill. Dylid hepgor ardaloedd o gyfalaf amgylcheddol neu sensitif arall	Treftadaeth Naturiol Crynodeb
	04. Dylid ystyried ble dylai'r mannau mynediad i'r safle fod. Noder y cysylltiadau posib i mewn i'r safle a thrwyddo gan gynnwys y rheiny ar gyfer cyfnodau dilynol y datblygiad. Dylid sefydlu fframwaith sy'n caniatáu hwylustod symudiad oddi fewn i'r datblygiad ac ar yr un pryd creu strwythur trefol cadarnhaol gyda strydoedd a gofodau deniadol sy'n hwylus i gerddwyr. Dylid ystyried hierarchaeth y strydoedd a'r gofodau sy'n diffinio'r prif llwybrau, y llwybrau eilaidd a'r llwybrau trydyddol oddi fewn i'r datblygiad.	Hygyrchedd a hwylustod symudiad Cymeriad a chyd-destun (Gweler hefyd Effeithlonrwydd Adnoddau) Eglurder
	05. Dylid datblygu strategaeth ar gyfer cynladwyedd, ffurf adeiledig a chysyniad pensaernïol i greu strydoedd a gofodau diogel a deniadol a ddyluniwyd yn dda ac adeiladau sy'n briodol ac yn gynaliadwy.	Parhad ac Amgáu Tir Cyhoeddus Amrywiaeth ac Amrywioldeb Y gallu i addasu Effeithlonrwydd Adnoddau

4.0

cyflwyno'r cais cynllunio

- 4.1 Bydd y gofynion ynghylch cyflwyno cais cynllunio'n amrywio o gyngor i gyngor. Mae'r wybodaeth gefnogi sy'n cael ei hamlinellu yn yr adran hon yn nodi'r gofynion lleiaf.


4.2 datganiad dylunio

- 4.2.1 Mae PCC a NCT 12 yn gofyn bod ceisiadau am ganiatâd cynllunio yn cynnwys datganiad dylunio. Mae'r datganiad dylunio'n gyfle i ddatblygwyr a dylunwyr ddisgrifio'u gweledigaeth ar gyfer y safle a dangos sut maent wedi ymateb i bob un o'r egwyddorion allweddol dylunio a chynnaladwyedd.
- 4.2.2 Mae NCT 12 yn nodi'r cynnwys gofynnol ar gyfer datganiad dylunio fel:
- egwyddorion a chysyniad dylunio;
 - sut mae'r rhain yn cael eu hadlewyrchu yn lleoliad, llunwedd, dwysedd, graddfa, dyluniad manwl a thirwedd y datblygiad;
 - sut mae'r dyluniad yn perthyn i'r safle a'r cyd-destun ehangach; a
 - sut bydd y datblygiad yn diwallu polisiâu dylunio CDU a gofynion SPG.
- 4.2.3 Wrth baratoi datganiad dylunio i ddiwallu'r gofynion hyn mae'r canlynol o bwysigrwydd neilltuol i ddangos cydymffurfiaeth â'r arweiniad hwn;
- dylai'r cysyniad dylunio ddiwallu gofynion adran 3.5 yr arweiniad hwn gan nodi gweledigaeth gyfannol ar gyfer datblygiad y safle;
 - dylai'r 'egwyddorion dylunio' nodi'n arbennig sut aethpwyd i'r afael â phob un o'r amcanion dylunio perthnasol yn yr arweiniad hwn;
- 4.2.4 Dylai datganiad dylunio ysgrifenedig gael ei egluro, fel bo'n briodol gan:
- gynlluniau a gweddluniau;
 - ffotograffau o'r safle a'r hyn sydd o'i amgylch; a
 - darluniau eraill fel persbectif.
- 4.2.5 Mae'r atodiad yn cynnwys rhestr wirio o ofynion gwybodaeth ar gyfer cais cynllunio y mae awdurdodau cynllunio lleol yn cael eu hannog i'w defnyddio fel enghraifft a'i haddasu ar gyfer amgylchiadau unigol.

Rhestr Wirio Datganiad Dylunio

	✓	x
Polisiâu Dylunio CDU a SPG		
Cyd-destun ac arfarniad safle		
Gweledigaeth sy'n disgrifio'r 'lle' a sut mae'n perthyn i'r safle a'r cyd-destun		
Egwyddorion dylunio a sut maent yn ymateb i arfarniad safle a chyd-destun		
Treftadaeth naturiol		
Crynodeb		
Mynediad a hwylustod symud		
Eglurder		
Cymeriad a chyd-destun		
Parhad ac amgáu		
Tir Cyhoeddus		
Amrywiaeth ac amrywioldeb		
Y gallu i addasu		
Effeithiolrwydd adnoddau		
Gwybodaeth gefnogi (gweler atodiad 1)		

GWYBODAETH GEFNOGI, CYNLLUNIAU A GWEDDLUNIAU AR GYFER CANOLFAN GOFAL DYDD A CHYMORTH BYW, PORTH TYWYN.



Gweddlyn Dwyreiniol o'r Ardd.

5.0

arfarniad dylunio

- 5.1 Mae'r arweiniad hwn yn nodi'r amcanion dylunio y dylid eu hystyried gan unrhyw un sy'n gwneud cais am ddatblygiad preswyl newydd sy'n fwy nag un annedd. Mae'n gofyn am ddatganiad dylunio sy'n disgrifio gweledigaeth ar gyfer y safle a sut mae'r cynnig yn diwallu pob amcan.
- 5.2 Ceir arfarniad dylunio gan yr awdurdod cynllunio a gall gynnwys:
- gofyn a yw'r cynnig/datganiad dylunio'n cynnwys gweledigaeth/cysyniad dylunio clir a phriodol sy'n ymwneud â'r broses adolygu polisi ac arfarnu safle; ac,
 - arfarnu pa mor dda mae'r cynnig dyluniad yn mynd i'r afael â phob un o'r amcanion dylunio perthnasol;
- 5.3 Dylai'r broses arfarnu dyluniad gael ei chyflawni er mwyn caniatáu digon o amser cyn penderfynu ar y cais er mwyn cyflawni gwelliannau dylunio. Gall yr arfarniad gael ei wneud ar y cyd rhwng yr awdurdod cynllunio a'r person neu'r tîm sy'n gwneud cais am y datblygiad. Dylai fod yn broses gadarnhaol a chreadigol i nodi meysydd penodol lle gellir gwneud gwelliannau.
- 5.4 Ni fydd hi'n bosib gwneud cynnig datblygu sy'n sylfaenol wael yn gymeradwy drwy gydymffurfio â'r arweiniad hwn. Serch hynny, dylai ceisiadau ar gyfer safleoedd a gefnogir gan y CDU ac sydd â gweledigaeth gref sy'n ymateb i bob amcan dylunio perthnasol, gael eu cefnogi gan yr awdurdod cynllunio ar sail dylunio.
- 5.5 Ar gyfer ceisiadau mawr sy'n bwysig i'r gymuned leol neu a fydd yn debygol o osod cysail, gall unrhyw un sy'n gwneud cais am ddatblygiad ofyn i Gomisiwn Dylunio Cymru (CDC) adolygu'r cynigion. Mae Comisiwn Dylunio Cymru yn sefydliad cenedlaethol a sefydlwyd ac a gaiff ei ariannu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Cenhadaeth CDC yw hyrwyddo safonau pensaernïol, tirwedd a dyluniad trefol uchel yng Nghymru, gan hyrwyddo dealltwriaeth ehangach o bwysigrwydd ansawdd da yn yr amgylchedd adeiledig, cefnogi sgiliau adeiladu, annog cynhwysiad cymdeithasol a datblygu cynaliadwy. Mae gan CDC ei broses adolygu dyluniadau ei hun y gellir ei chyrchu ar ei wefan: www.dcfw.org. Y manylion cysylltu yw CDC, 4ydd Llawr yr Adeilad, Two Caspian Point, Ffordd Caspian, Bae Caerdydd, CF10 4DQ.

6.0

astudiaethau achos

- 6.1 Mae'r wefan Building for Life <http://www.buildingforlife.org> yn cynnwys nifer o astudiaethau achos ar gynlluniau preswyl sy'n dangos rhai rhinweddau dylunio cadarnhaol. Mae'r astudiaethau achos wedi cael eu hymchwilio a'u hadolygu gan Mike Biddulph ac Alan Hooper ar ran DCfW mewn partneriaeth gyda Ffederasiwn Adeiladwyr Tai a'r Ymddiriedolaeth Ddinesig. Mae'r bennod hon yn adolygu'r astudiaethau achos hyn ac yn dangos sut maent yn cyflawni nifer o amcanion dylunio da a ddisgrifiwyd yn y ddogfen hon. Anogir defnyddwyr y ddogfen hon i ymweld â gwefan Adeiladu am Oes Cymru i weld adolygiad llawn o bob cynllun a chysylltiadau â safleoedd yn yr un maes.
- 6.2 Bwriad cynnwys yr astudiaethau achos hyn yn y ddogfen yw dangos perthnasedd pob un o'r amcanion i'r broses ddylunio ac nid ydynt yn nodi unrhyw gefnogaeth arbennig i brosiectau CSCC.

Ardal y Bragdy Caerdydd



ARDAL Y BRAGDY:
POWELL DOBSON ARCHITECTS

Gwybodaeth allweddol

Dyddiad cwblhau:
Hydref 2003

Cleient:
Mansford Holdings PLC & S A
Brains

Pensaer/dylunydd:
Powell Dobson Architects

Awdurdod Cynllunio:
Cyngor Sir Caerdydd

Nifer a math o anheddau:
42, fflatiau 1, 2 a 3 ystafell wely

Ffactorau Llwyddiant Allweddol:

Gweledigaeth gref sy'n creu
delwedd glir o'r dyluniad dymunol,
a drosglwyddir i'r cynllun adeiladu

Datblygiad defnydd cymysg gan
ddefnyddio rhinweddau pob
defnydd gwahanol i fwyafu
soniaredd y cynllun cyffredinol

Gofod cyhoeddus canolog o
ansawdd uchel gyda ffurf
adeiledig a'r llw o weithgareddau
ar lawr gwaelod yr unedau
amgylchynol

Trosolwg

Mae adleoli bragdy S.A Brains wedi gadael safle diwydiannol gwag yng Nghanol Dinas Caerdydd. Trefnir y cynllun o gwmpas cwrt wedi'i amgáu gan bensaerniaeth o ansawdd uchel sy'n rhoi cymeriad a hunaniaeth arbennig i'r datblygiad. Mae gan y cynllun gymysgedd bywiog o ddefnydd sy'n cynnwys bwytai, bariau, gofodau masnachol ac unedau preswyl. Mae'r ganolfan wedi cadw 2 adeilad rhestredig ac mae'n adnewyddu sawl strwythur arall.

Egwyddorion

Mae'r safle'n cynrychioli cyfle i greu catalydd ar gyfer buddsoddiad yn y dyfodol ar gyfer y rhan hon o Gaerdydd. Mae'r cynllun dilynol yn cyfuno safle diwydiannol cymhleth gyda chymysgedd o ddefnydd i gyflwyno datblygiad sydd nid yn unig yn llwyddiannus yn ei hun ond hefyd yn creu diddordeb o'r newydd yn yr ardal amgylchynol.

Gweledigaeth

- Roedd y weledigaeth yn galw am ateb unigryw, gyda blas Ewropeaidd, cynllun a fyddai'n datblygu'n gyrchfan o fewn dinas Caerdydd.
- Defnyddiodd y cynllun ddelweddaeth o Covent Garden a Temple Bar yn Nylun i greu darlun o'r cynllun dymunol.

Crynodeb


- Mae crynodeb yn ymwneud yn uniongyrchol â'r weledigaeth drwy greu arddull Ewropeaidd ddwys a chreu dinas sy'n gyrchfan
- Yn allanol, unedau'n parhau â ffyrntiau stryd
- Diffinnir gofodau mewnol drwy ffurf adeiledig i greu llwybrau a chyrtau

Mynediad a Hwylustod Symud

- Cysylltu â'r weledigaeth drwy greu gofodau mewnol athraidd, sy'n cysylltu â strydoedd allanol
- Edrychir dros lwybrau mewnol, gan fwyafu diogelwch

Cymeriad a Chyd-destun

- Gweledigaeth gref am gynllun cyfoes ac unigryw
- Hunaniaeth newydd yn seiliedig ar bensaerniaeth o ansawdd uchel, cymysgedd defnydd a threftadaeth adferedig o ddefnydd blaenorol y bragdy
- Ymateb i gyd-destun o ran uchder a ffyrntiadau stryd



- Cyfoeth gweledol strydoedd amgylchynol wedi gwella drwy dirnodau gyda goleuadau nodweddiadol o amgylch y mynedfeydd

Eglurder

- Defnyddio amrywiad mewn ffyrntiad i nodi mynedfeydd i'r datblygiad
- Dylanwadwyd yn gryf ar hunaniaeth y datblygiad gan gymysgedd o ddefnydd a chymeriad y datblygiad; lle cyffrous, bywiog a deinamig
- Mae'r cynllun wedi'i integreiddio i'r ffabrig trefol presennol drwy gadw'r nodweddion presennol a'i leoliad o fewn y bloc
- Mae'r cwrt mewnol yn lle arbennig ac wedi'i gyfuno â mynedfeydd clir yn creu datblygiad cofiadwy a chanfyddadwy

Parhad ac Amgáu

- Mae gofodau mewnol wedi'u hamgáu'n gyfan gwbl gan ddatblygiad gan roi ymyl parhaus i ofodau a llwybrau
- Mae datblygiad newydd allanol yn parhau â'r llinell adeiladau ac yn cadw'r ymdeimlad amgáu strydoedd gwreiddiol
- Mae adeiladau tal a gofodau cyhoeddus tynn yn creu ymdeimlad o amgáu yn unol â chwrt trefol ac yn ychwanegu at awyrgylch y gofodau
- Mae ffyrntiadau gweithredol yn wynebu gofodau cyhoeddus lle bynnag y bo'n bosib

Tir Cyhoeddus

- Mae'r cwrt yn rhan annatod o'r datblygiad
- Gorffeniad o ansawdd uchel, wedi'i gynnwys yn ffurf a defnydd yr adeilad
- Triniaethau a dyluniad arwyneb yn perthyn i weledigaeth a dealltwriaeth glir o ofynion a phatrymau defnydd

Amrywiaeth ac Amrywioldeb

- Cymysgedd mwyaf o ddefnydd ar safle yn creu datblygiad mwy hunangynhwysol gan sicrhau mwy o weithgaredd
- Mae ffyrntiadau gweithredol yn cael eu darparu ar lawr gwaelod drwy leoli defnydd fel bariau a bwytai sy'n lledaenu i'r mannau cyhoeddus
- Cedwir adrannau hanesyddol a strwythurau'r adeilad ac maent yn gweithio ochr yn ochr â phensaernïaeth gyfoes i ychwanegu amrywiaeth ac amrywioldeb i'r cynllun.

Coronation Terrace penarth



Y CYNLLUN AC WEDI'I ADEILADU:
CORONATION TERRACE: ATKINS DE2
FFOTOGRAFF GAN MIKE BIDDULPH

Gwybodaeth Allweddol

Dyddiad cwblhau:
2003

Cleient:
Andton Properties Cyf

Pensaer/dyluniwr:
Atkins DE2

Awdurdod Cynllunio:
Bro Morgannwg

Nifer a math o anheddau:
3, tai 3 llawr 1 ystafell wely

Ffactorau Llwyddiant Allweddol

Mae gweledigaeth gref am gynllun cyfoes mewn ardal gadwraeth wedi creu dyluniad dadleuol ac eto llwyddiannus, sy'n creu hunaniaeth newydd o fewn ardal breswyl sefydledig.

Mae'r ymgasgliad yn cynyddu amgáu Coronation Terrace ac yn creu ffasâd gweithredol parhaus

Mae manylion pensaernïol wedi caniatáu bod y nifer mwyaf o ystafelloedd yn mwynhau golygfeydd ar draws Caerdydd a Bae Caerdydd

Trosolwg

Mae Penarth yn dref Fictoraidd sy'n agos at Gaerdydd. Mae Coronation Terrace a'r safle'n dod o dan ardal gadwraeth Penarth. Mae'r safle'n wynebu'r dwyrain ac mae ganddo olygfeydd da o Gaerdydd a Bae Caerdydd. Yn gartrefi i garejis gynt, roedd y safle'n cynrychioli cyfle i ddatblygu cynllun cyfoes o fewn ardal gadwraeth.

Egwyddorion

Mae ymateb i gymeriad a chyd-destun ymysg y penderfyniadau dylunio mwyaf cynhyrfiol y mae'n rhaid eu gwneud wrth ddatblygu cynlluniau tirlenwi bach. Er yn gyferbyniol â chymeriad presennol yr ardal, mae'r cynllun yn llwyddo ar nifer o lefelau drwy ystyried egwyddorion a nodwyd yn y ddogfen hon yn ofalus.

Gweledigaeth

- Gweledigaeth glir i greu datblygiad tirlenwi cyfoes sy'n creu hunaniaeth newydd mewn ardal breswyl sefydledig ar safle bach

Crynodeb

- Mae'r cynllun yn gwneud defnydd effeithiol o safle tynn

Cymeriad a Chyd-destun

- Gweledigaeth gref ar gyfer cynllun cyfoes
- Creu hunaniaeth newydd, arbennig a hyderus
- Ymateb i gyd-destun o ran uchder a chyfeiriadedd ond mae'n defnyddio atalfa, triniaeth ffin, defnyddiau a ffurf bensaernïol a manylion i gyferbynnu â'r presennol
- Cyfoeth gweledol gwell gan y cynllun sy'n creu ychwanegiad cryf i Coronation Terrace drwy ffurf a ffenestriad


Eglurder

- Dylai'r prosiect, er yn ddadleuol, gyflwyno delwedd gadarnhaol gref iawn yn seiliedig ar ei bensaernïaeth wahanol o ansawdd uchel
- Mae swmp yr uned yn galluogi'r cynllun i gael mwy o ddylanwad ar gymeriad y stryd ac mae'n cyflwyno tîrnod amlwg, gan greu lle cofiadwy.

CORONATION TERRACE: ATKINS DE2
FOTOGRAFF GAN MIKE BIDDULPH



PERSPECTIF GOLWIG BLAEN:
CORONATION TERRACE: ATKINS DE2



ACSONOMETRIG:
CORONATION TERRACE ATKINS DE2



Parhad ac Amgáu

- Mae'r ymgasgliad a'r ffurf teras yn gwella amgáu'r stryd yn sylweddol
- Mae parhad y ffasâd wedi gwella
- Ceir lefel gynyddol o edrych dros y stryd
- Parcio mewnol rhannol yn darparu diogelwch
- Uchder adeiladau'n ymateb i'r rhai presennol

Amrywiaeth ac Amrywioldeb

- Hunaniaeth newydd hyderus yn gwella amrywiaeth pensaernïol yr ardal
- Cynllun yn cyflwyno maint uned anarferol a fydd yn gwella amrywiaeth y stoc dai yn yr ardal

Y gallu i addasu

- Mae cyfeiriadedd unedau'n galluogi integreiddio â ffurf y stryd bresennol
- Gallai'r llawr gwaelod a'r ardaloedd parcio gael eu haddasu'n ystafelloedd byw yn y dyfodol gan symud y lle parcio i'r stryd

Cau Cynlluniedig y Cyfleusterau



ALLANOL A MEWNOL: GERDDI DRY
BRIDGE: AINSLEY GOMMON ARCHITECTS

Gwybodaeth allweddol

Dyddiad cwblhau:
Rhagfyr 2003

Cleient:
Cymdeithas Tai Siartredig Cyf ac
Adran Gwasanaethau
Cymdeithasol Cyngor Sir Fynwy

Pensaer/dylunydd:
Ainsley Gommon Architects

Awdurdod Cynllunio:
Cyngor Trefynwy

Nifer a math o anheddau:
6 annedd, cartref gofal preswyl

Ffactorau Llwyddiant Allweddol:

Gweledigaeth glir sy'n ymwneud
ag anghenion penodol y
defnyddwyr terfynol

Ymagwedd ardderchog tuag at
effeithlonrwydd ynni gan arwain at
gynllun effeithlonrwydd ynni sydd
yn gwneud mwy na'r hyn a nodir
yn yr arweiniad

Hyblygrwydd o ran defnydd ar
gyfer anghenion newidiol
defnyddwyr terfynol

Trosolwg

Roedd cau cynlluniedig y cyfleusterau gofal hir dymor presennol ar gyfer pobl ag anableddau difrifol yn gofyn am ail-ddarparu ar gyfer 6 phreswlydd parhaol. Daethpwyd o hyd i safle ger y cyfleuster presennol i'w ddatblygu. Mae'r safle o fewn gardd furiog gradd II.

Mae pob preswlydd yn galw am ofal 24 awr a llety sy'n ymateb i anghenion corfforol newidiol pob person wrth hyrwyddo annibyniaeth. Yn ogystal, byddai'n rhaid i'r cynllun hefyd ystyried gofynion penodol unigolion sydd wedi bod mewn gofal sefydliadol hir dymor.

Egwyddorion a gyflawnwyd yn y cynllun

Mae'r cynllun pwrpasol yn ateb penodol i broblem benodol. I'r perwyl hwn, nid yw'n arddangos ymagwedd sy'n gyson â'r holl egwyddorion a nodir yn yr arweiniad dylunio. Serch hynny, o ran llawer o ffactorau mae'n ddyluniad llwyddiannus iawn, yn dangos bod angen gweledigaeth ar bob cynllun a bod y lefel llwyddiant yn uniongyrchol gysylltiedig ag eglurder y weledigaeth. Yn ogystal, mae'r cynllun yn cymryd ymagwedd tuag at effeithlonrwydd ynni sydd wedi creu enghraifft ardderchog o ddyluniad effeithlonrwydd ynni y tu hwnt i ofynion arweiniad cyfredol.

Gweledigaeth


- Creu cynllun ag amgylchedd cefnogol ar gyfer defnyddwyr ac eto'n caniatáu annibyniaeth, sydd wedi'i ddylunio am hirhoedledd ac yn cynnwys strwythurau cyfoes a hanesyddol presennol
- Mae'r dyluniad yn ymateb pwrpasol i'r weledigaeth hon

Crynodeb


- Mae cyfuno 6 uned breswyl un llawr a gardd ganolog gyffredin yn gwneud defnydd effeithiol o'r safle
- Darperir 2 fan parcio ar gyfer pob uned

Mynediad a Hwylustod Symud

- Yn gysylltiedig â'r weledigaeth gyffredinol, mae mynediad yn un o'r gofynion allweddol gan alluogi mynediad hawdd i'r defnyddwyr terfynol a lefel uwch o annibyniaeth drwy ddefnyddio drysau â motor a rhoi sylw i fanylion trothwyau



NID I
RADDFA



Cymeriad a Chyd-destun

- Mae'r cynllun yn cadw'r wal restredig gradd II ac yn addasu elfennau pensaernïol i weithio gyda'r wal ac osgoi effeithiau niweidiol ar ei strwythur

Eglurder

- Mae fframio clir y mynedfeydd a'r llwybrau yn rhoi cynllun hawdd i'w ddeall
- Yn fewnol mae'r ardd yn rhoi hunaniaeth gadarnhaol i'r datblygiad ac wedi'i gyfuno ag un llawr, mae strwythurau lliwiau golau'n creu datblygiad agored ac eang.

Y gallu i addasu

- Mae'r cynllun wedi'i ddylunio ar gyfer hirhoedledd gyda defnyddiau cadarn a chynaliadwy
- Mae adeiladau'n hyblyg a gellir eu haddasu i ddiwallu anghenion newidiol preswylwyr unigol

Effeithlonrwydd Adnoddau

- Mae'r cynllun yn ailddefnyddio'r strwythurau presennol ar y safle
- Mae'r deunyddiau'n cael effaith amgylcheddol bychan o ran costau bywyd, ailgylchu, ynni a ymgorfforwyd, cludiant ac effaith amgylcheddol
- Mae'r lefelau ynysu yn fwy na'r hyn a awgrymir yn y canllawiau ac mae'r deunyddiau ynysu wedi'u gwneud o bapur newydd sydd wedi'i ailgylchu
- Mae ynni'r haul yn darparu 30% o ofynion dŵr poeth
- Mae cywain dwr gwyrdd yn ailgylchu dŵr ar gyfer toiledau a pheiriannau golchi

Pebble Beach

Y Barri



Y TU ALLAN A'R TU MEWNI:
PEBBLE BEACH: CAPITA SYMONDS

Gwybodaeth Allweddol

Dyddiad cwblhau:
Gorffennaf 2004

Cleient:
Barratt De Cymru

Pensaer/dylunydd:
Capita Symonds Cyf

Awdurdod Cynllunio:
Cyngor Bro Morgannwg

Nifer a math o anheddau:
20, fflatiau 2 a 3 ystafell wely

Ffactorau Llwyddiant Allweddol

Cyfranogiad y gymuned

Ystyried lleoliad tirwedd sensitif

Datblygiad cryno

Trosolwg

Mae'r ardal yn dod o fewn Ardal Gadwraeth Forol (yn amodol ar arfarniad mabwysiadu) ac mae wedi'i lleoli'n agos at y promenâd a'r Llyn Morol yn Knap ar ochr orllewinol glan môr y Barri. Roedd yn rhaid i'r cynllun ystyried nodweddion sensitif y promenâd, y gerddi a'r llyn morol yn ofalus.

Roedd y cynllun yn golygu dymchwel hen dafarndy a chyfleuster hamdden i wneud lle i 20 o fflatiau moethus.

Egwyddorion a gyflawnwyd yn y cynllun

Mae datblygu ar dirweddau sensitif yn anochel yn gydbwysedd gofalus rhwng yr amgylchedd, ffactorau economaidd a'r gymuned. Mewn rhai ffyrdd mae'r cynllun hwn yn enghraifft o sut i ymdrin â datblygiad sydd â'r potensial i fod yn sensitif a sut i beidio. Cafwyd gwrthwynebiad cryf i'r cynlluniau cychwynnol gan grwpiau lleol ac o ganlyniad gwrthodwyd rhoi caniatâd cynllunio ar sail dylunio. Yn dilyn ystyried barn trigolion lleol a'r awdurdod cynllunio, mae'r cynllun adeiledig yn cynnwys ymagwedd gytbwys sy'n ystyried yr holl bryderon cychwynnol. Mae'r cynllun yn ddatblygiad cyfoes cyffrous a gefnogir yn eang gan y gymuned leol a'r awdurdod cynllunio ac yn un sy'n ystyried cyd-destun sensitif ac o ganlyniad ac yn cyflawni cynllun o ansawdd uchel.

Gweledigaeth

- Datblygiad cyfoes o ansawdd uchel sy'n ymateb i'r cyd-destun amgylcheddol sensitif.

Cyfranogiad Cymunedol

- Mae cyfranogiad cymunedol wedi gyrru camau diweddarach y cynigion dylunio i'r graddau fel bo'r cynllun bellach yn cael ei gefnogi'n eang gan y gymuned.

Crynodeb

- mae'n cysylltu â'r weledigaeth drwy ymateb y cynlluniau i'r lleoliad sensitif, graddfa'r datblygiad a'r ddarpariaeth o fflatiau gan wneud defnydd effeithiol o dir.



Cymeriad a Chyd-destun

- Mae gweledigaeth gref ar gyfer datblygu moethus yn gweithio gyda lleoliad y dirwedd drwy ymagwedd sensitif at ddyluniad llinellau to a dewisiadau deunyddiau manwl
- Mae'r datblygiad yn mynegi hunaniaeth arbennig wrth ymateb i'r lleoliad arfordirol

Eglurder

- Mae gan y cynllun hunaniaeth glir sy'n ymwneud â'r weledigaeth - moethusrwydd a ddyluniwyd yn dda o ansawdd uchel
- Mae'r uchder a'r swmp wedi cael eu hamrywio i greu amrywiad o ran pwysigrwydd ac yn helpu i ddiffinio mynedfeydd
- Bydd ansawdd uchel y bensaernïaeth a lleoliad y dirwedd yn cwblhau'r cynllun hwn a'r lleoedd y bydd yn eu gwella yn gofiadwy

Parhad ac Amgáu

- Edrychir dros y llwybrau mewnol ac allanol
- Mae'r datblygiad yn ffurfio llinellau adeiladau parhaus gan amgáu gofodau a llwybrau
- Edrychir dros y cyrtiau parcio

Effeithlonrwydd Adnoddau

- Dewiswyd deunyddiau am eu cryfder a'u cadernid

Plas Gwenfrewi

Treffynnon



GOLYGEYDD ALLANOL: PLAS
GWENFREWI: AINSLEY GOMMON
ARCHITECTS

Gwybodaeth allweddol

Dyddiad cwblhau:
Mawrth 2004

Cleient:
Cymdeithas Tai Cymru a'r
Gorllewin

Pensaer/dylunydd:
Ainsley Gommon Architects

Awdurdod Cynllunio:
Sir y Fflint

Nifer a math o anheddau:
15, fflatiau 1 a 2 ystafell wely ac
un byngalo 1 ystafell wely

Ffactorau Llwyddiant Allweddol

Cadw nodweddion hanesyddol
sy'n ymwneud â chymeriad

Lefel uchel o effeithlonrwydd ynni

Trosolwg

Lleolir y safle ger Treffynnon ac mae o fewn Ardal Gadwraeth Treffynnon. Roedd y cynllun yn golygu adnewyddu ysgol a thŷ ysgol gwag, estyniad sympathetig ac adfer cofadail rhestredig Gradd II o'r Iesu. Roedd y cynllun yn golygu dymchwel popeth heblaw'r prif ffasâd i'r stryd ac ailadeiladu ac estyn yr adeilad gan alluogi addasu'r tu mewn yn 8 fflat. Gwnaeth estyniad sympathetig i'r adeilad ganiatáu 7 fflat pellach. Mae'r holl unedau'n fforddiadwy ac wedi'u hadeiladu i Safonau Cartrefi Gydol Oes.

Egwyddorion

Gall prosiectau trawsnewid, adfer a chadw yn aml fod yn ddrrud ac yn gymhleth; o ganlyniad trodd nifer o ddatblygwyr eu cefn ar y prosiect hwn. Mae'n destament i dîm y prosiect a'r awdurdod cynllunio bod y cynllun wedi bod yn gymaint o lwyddiant, o ran cyllideb a'r cynnyrch terfynol.

Gweledigaeth

- cynllun estyn a thrawsnewid o ddwysedd uchel sy'n darparu nifer o unedau tai fforddiadwy

Crynodder



- Ymwneud yn uniongyrchol â'r weledigaeth i gyflawni datblygiad dwysedd uchel o amgylch ffurf gryno adeiladau presennol yr ysgol
- Mae'r cynllun yn cynnal amgáu y stryd gan y ffasadau presennol
- Darparwyd 1.5 man parcio fesul annedd

Mynediad a Hwylustod Symud

- Mae nifer o fflatiau yn edrych dros y cwrt canolog
- Bydd trawsnewid y tŷ ysgol gwag i ddefnydd preswyl yn cynyddu'r ystafelloedd preswyladwy sy'n edrych dros y stryd

Cymeriad a Chyd-destun

- Mae cymeriad y datblygiad yn perthyn yn uniongyrchol i'r weledigaeth drwy gadw'r elfennau oedd yn rhoi cymeriad i'r safle
- Mae estyniadau'n ymateb i uchder a safle'r unedau gwreiddiol
- Mae estyniadau'n rhoi diddordeb ychwanegol drwy gyfeirio ond nid copio manylion yr unedau sydd yno eisoes



Eglurder

- Bydd y cynllun yn parhau ag ychydig o hunaniaeth bresennol y defnydd a'r adeiladau blaenorol ond bydd gorffeniad o ansawdd uchel a defnydd newydd yn dechrau ffurfio hunaniaeth gadarnhaol ei hun; cymysgedd o'r hen a'r newydd

Parhad ac Amgáu

- Mae edrych dros y stryd wedi gwella gan newid defnydd cadarnhaol
- Mae gofodau cyhoeddus a phreifat wedi'u diffinio gan y wal a'r giât ffiniol wreiddiol

Amrywiaeth ac Amrywioldeb

- Mae gan y cynllun gymysgedd o unedau maint gwahanol
- Mae adeiladau hanesyddol wedi cael eu cadw ac ynghyd ag ychwanegiadau newydd mae'n ychwanegu diddordeb ac amrywiaeth i olygfa'r stryd

Effeithlonrwydd Adnoddau

- Ailgylchu deunyddiau adeiladau
- Defnyddio crefftwyr medrus lleol â sgiliau traddodiadol
- Adeiladau wedi'u hynysu'n dda
- Darparu tai rhad sy'n hawdd eu cynnal ar gyfer y gymuned leol

Sovereign Quay Caerdydd

SOVEREIGN QUAY, BAE CAERDYDD GAN BARRATT DE CYMRU. DYLUNIWDYD GAN GODDARD MANTON ARCHITECTS AR GYFER BARRATT



Gwybodaeth allweddol

Dyddiad cwblhau
2003

Cleient:
Barratt De Cymru

Pensaer/Dylunydd:
Goddard Manton Architects

Awdurdod Cynllunio:
Cyngor Sir Caerdydd

Nifer a math o anheddau:
60, fflatiau 1 a 2 ystafell wely

Ffactorau Llwyddiant Allweddol

Drwy ddefnydd helaeth o wydriad ac ymagwedd ddeallus i strwythur, mae adeilad dwys a mawr wedi cyflawni ymgasgliad deniadol

Cafwyd gweledigaeth glir, drwy ddatganiad pensaernïol cryf, sy'n creu hunaniaeth unigryw o fewn ardal y Bae

Defnydd cymysg gan greu ffyrntiad deniadol, amrywiol a gweithredol i'r strydoedd a'r llwybrau amgylchynol

Trosolwg

Wedi'i leoli yn Ardal Adfywio Bae Caerdydd, roedd y safle'n faes parcio dros dro yn wreiddiol wedi'i leoli rhwng amgueddfa wyddonol Techniquet a bar chwaraeon. Mae'r safle hefyd yn agos at Westy St. Davids, tŵr gwyn modern sy'n gweithredu fel tirnod.

Egwyddorion a gyflawnwyd yn y cynllun

Mae llwyddiant y datblygiad hwn nid yn unig yn gorwedd yn y manylion pensaernïol ond hefyd yn y cymysgedd o ddefnydd a sylw i egwyddorion dylunio trefol. Mae hyn yn golygu cynnwys y datblygiad yn y mynediad glan dŵr gwell gan ffurfio llwybr ar hyd ymyl y doc gan gysylltu canolfan fasnachol Bae Caerdydd â Gwesty St. Davids.

Gweledigaeth

- Drwy broses o gystadleuaeth, roedd y safle'n galw am gynllun defnydd cymysg o ansawdd uchel a oedd yn mwyafu'r dwysedd ac ar yr un pryd yn cynnal terfyn uchder o 7 llawr.

Crynodeb


- Y dwysedd yw 200 annedd fesul hectar ac mae'n adlewyrchu lleoliad dinas a'r weledigaeth
- Darperir parcio ar gyfer 100% ac nid yw'n cael braidd dim effaith ar grynodeb, gan ei fod wedi'i leoli ar yr islawr

Mynediad a Hwylustod Symud


- Mae'r cynllun yn cysylltu'r ganolfan fasnachol â Gwesty St. Davids, gan ddarparu llwybrau gweithredol yr edrychir drostynt rhwng y ddau

Cymeriad a Chyd-destun

- Mae'r weledigaeth yn ymwneud â datblygiad arfaethedig ardal y Bae yn hytrach nag unedau is sy'n bodoli'n barod gerllaw
- Mae'r cynllun yn ymateb i'r cyd-destun drwy godi adeiladau sy'n lleihau yn raddol o ran uchder wrth nesáu at adeilad is Techniquet
- Mae arddull bensaernïol y datblygiad yn ddyledus i Westy St. Davids am rai o'i nodweddion.
- Mae'r cynllun yn darparu gweddol gweledol gyfoethog gyda llinellau a rhaniadau syml sy'n ychwanegu diddordeb i'r ffyrntiau, yn ffurfio cymeriad arbennig a hawdd ei adnabod



SOVERIGN QUAY: BAE CAERDYDD GAN BARRATT DE CYMRU. DYLUNIWDYD GAN GODDARD MANTON ARCHITECTS AR GYFER BARRATT.



SOVERIGN QUAY: BAE CAERDYDD GAN BARRATT DE CYMRU. DYLUNIWDYD GAN GODDARD MANTON ARCHITECTS AR GYFER BARRATT.

Eglurder

- Wrth i ddatblygiadau yn y dyfodol ddigwydd, bydd yr adeilad yn integreiddio yn yr adeiledd trefol, ond dylai'r tŵr tal barhau fel tirnod
- Yn ogystal, mae'r bensaernïaeth yn amlwg yn perthyn i ddatblygiad glan môr ar raddfa dinas ond mae'n creu ei hunaniaeth ei hun gyda manylion pensaernïol nodedig a gorffeniad o ansawdd uchel
- Mae'n atgyfnerthu'r strwythur trefol a grëwyd gan y doc

Parhad ac Amgáu

- Mae natur hir a chul y safle ynghyd â gofynion dwysedd uchel a chyfyngiadau uchder yn golygu bod cynllun effeithiol yn hanfodol. Yn naturiol, mae hyn yn amgáu'r stryd, gyda ffryntiadau parhaus
- Mae ffryntiadau gweithredol ar lefel stryd yn rhoi ffasâd parhaus a bywiog i lwybrau
- Mae unedau preswyl ar loriau uwch yn caniatáu goruchwyllo strydoedd a gofodau isod

Amrywiaeth ac Amrywioldeb

- Archwiliwyd y cyfleoedd i gyflwyno defnyddiau eraill, gan arwain at gymysgedd o ddefnydd fertigol gyda manwerthu ar y lefel gwaelod a phreswyl uchod
- Darparwyd cymysgedd o unedau maint gwahanol

Steffani Court Caerdydd



Y TU MEWN A'R TU ALLAN:
STEFFANI COURT; PCKO/PENTAN

Gwybodaeth allweddol

Dyddiad cwblhau
Dechreuwyd adeiladu ym mis
Mawrth 2001 ac fe'i cwblhawyd ym
mis Hydref 2003

Cleient:
Cymdeithas Tai Cymunedol
Caerdydd

Pensaer/dylunydd:
PCKO (cyn cytundeb), Pentan (ar ôl
cytundeb)

Awdurdod Cynllunio:
Cyngor Sir Caerdydd

Nifer a math o anheddau:
Cyfanswm o 28 uned; 7 tŷ tri llawr;
19 fflat un a dwy ystafell wely; 2 fflat
dwy ystafell wely gyda mynediad i
bobl â phroblemau symudedd

Ffactorau Llwyddiant Allweddol

Mae cyfranogiad cymunedol wrth
wraidd pob cam dylunio gan arwain
at gynllun sy'n adlewyrchu gofynion
ac amrywioldeb y gymuned.

Cymysgedd unedau o fathau a
meintiau gwahanol

Mae'r llunwedd yn galluogi cyflwyno
cynllun cryno gyda ffocws canolog a
ffasâd gweithredol i Stryd Hannah

Trosolwg

Mae'r safle wedi'i leoli mewn ardal breswyl ond roedd yn cael ei ddefnyddio at ddefnydd masnachol cyn datblygu. O ran cyd-destun, mae'r ardal yn cynnwys nifer o adeiladau a adeiladwyd gan y cyngor ar ffurf fflatiau deulawr a blociau o fflatiau. Aethpwyd i'r afael â'r ailddatblygu fel prosiect adfywio cyflawnadwy allweddol ac fe'i cefnogwyd gan Gyngor Sir Caerdydd a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Gydag ymrwymiad cymunedol cryf, mae'r dyluniad yn adlewyrchu hunaniaeth a natur y gymuned leol. Yn ogystal, mae'r cynllun yn diwallu nifer o feini prawf dylunio trefol hanfodol.

Egwyddorion a gyflawnwyd yn y cynllun

Mae'r cynllun yn llwyddo ar nifer o lefelau drwy ystyried yr egwyddorion a nodwyd yn y ddogfen hon yn ofalus. Isod a throsodd ceir esboniad o'r hyn a ystyriwyd a pham y mae wedi arwain at ddatblygu cynllun o ansawdd uchel.

Gweledigaeth

- Seiliwyd gweledigaeth gref ar ofynion y gymuned Yemeni leol a'r defnyddwyr potensial
- Mae'r weledigaeth yn ymwneud â'r llunwedd a'r bensaernïaeth yn ogystal â'r trefniadau mewnol a'r deunyddiau
- Mae dyluniad y cynllun yn galluogi'r weledigaeth i gael ei throsi i ffurf a llunwedd gan gyflawni cysylltiad â'r gymuned Yemeni o ran hunaniaeth a dwysedd

Cyfranogiad Cymunedol



- Mae'r prosiect yn seiliedig ar lefel uchel a pharhaus o gyfranogiad cymunedol

Crynodeb

- Mae'r llunwedd a'r dwysedd canlyniadol yn ymwneud yn uniongyrchol â gweledigaeth drwy greu ffurf gryno a drefnwyd o amgylch cwrt canolog
- Darparwyd gofod agored oddi ar y safle
- Mae gofod agored y cwrt yn hanfodol i'r cynllun

Mynediad a Hwylustod Symud

- Mae dyluniad gofod y cwrt canolog yn perthyn yn agos i barth cartref gan greu ardal gymunedol ddiogel
- Dyluniwyd cyflymder cerbydau wrth adael y gofod drwy ddefnyddio arwyneb a rennir a'r dyluniad sy'n ffafrio cerddwyr



- Ystyriwyd mynediad i bawb o ran mynediad i anheddau ac ardaloedd allanol

Cymeriad a Chyd-destun

- Gweledigaeth gref yn seiliedig ar greu gofod cymunedol yn hytrach nag arddull bensaernïol
- Yn creu hunaniaeth newydd gadarnhaol sy'n cyfeirio at nodweddion cyd-destun, swmp, uchder etc.
- Mae rhannu adeiladau'n fertigol yn rhoi'r argraff o led plot ac mae'n cyflawni lefel o amrywiaeth a diddordeb pensaernïol yn y ffasâd

Eglurder

- Meddylwyd yn ofalus ynghylch y cwrt mewnol er mwyn greu gofod cofiadwy sy'n ganolbwynt
- Ffryntiau parhaus gyda bylchau clir yn nodi mynedfeydd

Parhad ac Amgáu

- Mae strwythur bloc a llunwedd yn caniatáu edrych dros y stryd a'r cwrt mewnol
- Mae lleoliad yr adeiladau'n amgáu'r stryd
- Lleolwyd parcio er mwyn osgoi tarfu ar ddilyniant y ffasâd
- Mae mynedfeydd a ffenestri'n darparu ffryntiadau gweithredol i Stryd Hannah
- Mae'r datblygiad yn cyfrannu at fywyd y stryd yn ogystal â gofodau mewnol
- Mae waliau ffin is yn ychwanegu at amgaead y stryd a dilyniant y ffasâd

Amrywiaeth ac Amrywioldeb

- Cymysgu mathau a meintiau unedau

Y gallu i addasu

- Mae'r bloc yn integreiddio â'r adeiledd trefol amgylchynol drwy drwsio cefnau ac ochrau agored posib unedau presennol wrth gyflwyno ffryntiadau gweithredol i Stryd Hannah
- Ceir llunwedd syml a chryf i'r cwrt a dyluniad manwl
- Mae lifftiau'n galluogi'r henoed i gael mynediad i'r lloriau uwch

Cynllun lleoliad

- Rhowch raddfa 1:1250 os yn bosib ond ni ddylai fod yn llai na 1:2500
- Pwynt y gogledd, dyddiad a rhif llun
- Amlinellwch eiddo'r cais, a nodwch unrhyw eiddo cyfnesaf sy'n eiddo i neu'n cael ei reoli gan yr ymgeisydd
- Nodwch eiddo'r cais mewn perthynas â phob eiddo cyfnesaf a'r ardal amgylchynol, gan gynnwys ffyrdd.
- Dangoswch fynediad cerbydau i'r briffordd os nad yw'r safle'n ffinio â'r briffordd.

Manylion llunwedd y safle presennol

- Rhowch raddfa, fel arfer 1:200 neu raddfa briodol i ganfod y lefel ganfyddedig o fanylion
- Pwynt y gogledd, dyddiad a rhif ar gynlluniau
- Dangoswch yr eiddo cyfan, gan gynnwys yr holl adeiladau, gerddi, mannau agored a lle parcio
- Lle bo'n briodol: Arolwg coed -cadwraeth natur, bioamrywiaeth, draenio a nodweddion naturiol eraill -gwasanaethau presennol

Manylion Gosodiad y Safle Arfaethedig

- Rhowch raddfa, 1:200 fel arfer
- Pwynt y gogledd, dyddiad a rhif ar y cynlluniau
- Dangoswch leoliad unrhyw adeilad neu estyniad newydd, mynediad cerbydau/cerddwyr, newidiadau mewn lefelau, cynigion tirlunio, gan gynnwys coed sydd i'w gwaredu, unrhyw blannu newydd, waliau a ffensys ffin newydd neu a addaswyd, a mannau agored wyneb caled newydd
- Dangoswch y cynigion yng nghyd-destun adeiladau cyfnesaf

Cynlluniau Llwr

- Rhowch raddfa 1:50 neu 1:100
- Yn achos estyniad, dangoswch lunwedd llwr yr adeilad presennol i nodi'r berthynas rhwng y ddau, gan nodi'r gwaith newydd yn glir
- Dangoswch gynlluniau llwr yng nghyd-destun adeiladau cyfagos, lle bo'n briodol
- Yn achos ceisiadau bach, gall fod yn briodol cyfuno'r llunwedd a'r cynllun llwr (oni bai bod unrhyw waith dymchwel)
- Ceisiwch gynnwys cynllun to lle bo'n angenrheidiol i ddangos to cymhleth neu addasiad i un

Gweddlluniau

- Rhowch raddfa 1:50 neu 1:100 (yn gyson â chynlluniau llwr)
- Dangoswch bob gweddllun adeilad neu estyniad newydd
- Ar gyfer estyniad neu addasiad, nodwch godiadau presennol ac arfaethedig yn glir
- Cynhwyswch fanylion defnyddiau ac ymddangosiad allanol
- Dangoswch weddlluniau yng nghyd-destun adeiladau cyfagos, lle bo'n briodol

Trawstoriadau

- Rhowch raddfa 1:50/ 1:100 (yn gyson â chynlluniau llwr), lle bo'n briodol.

Gwybodaeth gefnogi

- Defnyddio fontage ffotograffig, argraff arlunydd a/neu ddarluniau a luniwyd ar gyfrifiadur i ddangos cynlluniau.
- Mae adeiladu modelau 3D yn werthfawr ar gyfer cynlluniau enfawr er mwyn dangos mäs a pherthynas rhwng adeiladau.

Materion eraill y gellir eu cynnwys lle bo'n briodol yw:

- Defnyddio ynni ac agweddau effeithlonrwydd
- Rheoli gwastraff ar y safle
- Goblygiadau ac ymrwymadau cynnal a chadw yn y dyfodol

darllen pellach

Nid yw'r ddogfen hon yn ganllaw dylunio cynhwysfawr. Gellir dod o hyd i wybodaeth fanwl bellach ar sut i fynd i'r afael â phob amcan dylunio mewn nifer o ddogfennau eraill gan gynnwys y rheiny a restrir isod:

Comisiwn Archwilio 1999, 'Listen Up! Effective Community Consultation,
BRE 2000, The Green Guide to Housing Specification
BRE 2004 Thinking Business Space,
BREEAM (BRE Environmental Assessment Method), www.breeam.org
Sefydliad Safonau Prydeinig BS8300, 'Mynediad i Bobl Anabl'
CABE 2002, The Value of Good Design,
CABE/DCfW 2004, Creating Excellent Buildings
CABE/DCfW 2004, Creating Successful Materplans
Prifysgol Caerdydd/WWF 2004, Sustainable Construction - Practical Guidance for Crime and Disorder
Act 1998, Section 17
Planners and Developers, Sustainable Housing Design Strategy for Wales
CIRIA 2004, Code of Practice: Rights of Access - Good facilities, services and premises, Considerate
Constructors Scheme, www.ccscheme.org.uk
DETR 1998, Places Streets and Movement
DETR 2000, By Design
DETR GPG274, Environmentally Smart Buildings - a Quantity Surveyors Guide to the cost -
effectiveness of energy efficient offices
DETR GPG287, The Design Team's Guide to Environmentally Smart Buildings
Comisiwn Hawliau'r Anabl www.drc.org.uk, Designing for Accessibility, Centre for Accessible
Environments www.cae.org.uk
DTLE/CABE 2001, Better Places to Live
English Partnerships, 2000, Urban Design Compendium
Evans et al Tachwedd 1998 -The Long Term Costs of Owning and Using Buildings, Academi Beirianneg
Frenhinol
Faber Maunsell/DTI 2004, Engage - how to deliver socially responsible construction - a client's guide
Fforwm Tai Chwefror 2002, Rethinking Construction, 20 steps to encourage the use of whole life costing
IDeA Knowledge a'r WWF (gwefan), Mainstreaming Sustainable Development through Modernisation
King Sturge 2004, Property Sustainable Matters - Caveat Emptor
Awdurdodau Cynllunio Lleol, Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2004, Dechrau Byw'n Wahanol
ODPM 2004, Safer Places - The Planning System and Crime Prevention
Sustainable Buildings: Benefits for occupiers, BRE Information Paper
TCPA 2004, Biodiversity by Design - A Guide for Sustainable Communities
UWE 2003, Shaping Neighbourhoods
UWE/LGMB, 1995, Sustainable Settlements
WDA 1995, Tirweddau yn Gweithio dros Gymru
WDA 2003, Canllawiau Bioamrywiaeth
WDA 2005, 'Strategaeth Ddylunio Awdurdod Datblygu Cymru'
Llywodraeth Cynulliad Cymru 2002, Polisi Cynllunio Cymru
Llywodraeth Cynulliad Cymru 2002a: Dyluniad NCT 12
Llywodraeth Cynulliad Cymru 2004, Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy
Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 16/94, 'Planning Out Crime'

rhestr termau: iaith dylunio

O: DETR a CABE (2000) By Design: Urban design in the Planning System - Towards Better Practice, Llundain, Cyhoeddwy Thomas Telford

Arfarnu ardal Asesiad o ddefnydd tir, amgylchedd adeiladol a naturiol, a nodweddion cymdeithasol a ffisegol ardal.

Arfarnu cyd-destun (neu safle ac ardal) Dadansoddiad manwl o nodweddion safle neu ardal (gan gynnwys defnydd tir, yr amgylchedd adeiladol a naturiol, a nodweddion cymdeithasol a ffisegol) sy'n creu sail ar gyfer fframwaith dylunio trefol, briff datblygu, canllaw dylunio neu unrhyw bolisi neu arweiniad arall.

Arfarnu cymeriad ardal gadwraeth Dogfen wedi'i chyhoeddi yn diffinio'r diddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig a barodd i'r ardal gael ei dynodi.

Asesu cymeriad Arfarniad o ardal yn nodi nodweddion ffisegol gwahaniaethol ac yn pwysleisio cysylltiadau hanesyddol a diwylliannol.

Asesiad dylunio Asesiad annibynnol o ddyluniad a gaiff ei gynnal fel arfer ar gyfer awdurdod lleol gan ymgynghorwyr, awdurdod lleol arall neu ryw asiantaeth arall.

Astudiaeth meinwe Cymharu graddfa a llunwedd gwahanol aneddiadau. Mae'r dechneg hon yn defnyddio tros-argraffu neu fapiau dargopïo o leoedd llwyddiannus dros y datblygiad safle neu ardal arfaethedig, gan ddefnyddio'r un raddfa. Mae'n rhoi syniad i'r dylunydd o allu lle a sut gellir ei strwythuro

Athreiddedd I ba raddau y mae gan ardal lwybrau dymunol, cyfleus a diogel drwyddi.

Braslun dangosol Lluniad o ffurfiau adeiladau a gofodau a fwriedir i gyfleu elfennau sylfaenol dyluniad posib.

Briff Mae'r canllaw hwn yn cyfeirio at friffiau sy'n benodol i safle fel briffiau datblygu. Mae gan friffiau sy'n benodol i safle amrywiaeth o enwau eraill hefyd, gan gynnwys briffiau dylunio, briffiau cynllunio a fframweithiau datblygu.

Briff cynllunio Mae'r canllaw hwn yn cyfeirio at friffiau sy'n benodol i safleoedd megis briffiau datblygu. Defnyddir enwau eraill megis briffiau cynllunio, briffiau dylunio a fframweithiau datblygu hefyd.

Briff datblygu Dogfen, a baratowyd gan yr awdurdod cynllunio lleol, datblygwr, neu ar y cyd, yn darparu arweiniad ar sut dylid datblygu safle o faint neu sensitifrwydd arwyddocaol. Mae briffiau penodol i safleoedd weithiau yn cael eu hadnabod fel briffiau cynllunio, briffiau dylunio a fframweithiau datblygu.

Canllaw dylunio Dogfen yn darparu arweiniad ar sut gellir cyflawni datblygiad yn unol â pholisïau dylunio awdurdod lleol neu sefydliad arall yn aml â'r bwriad o gadw hynodrwydd lleol.

Celf gyhoeddus Gweithiau celf ffisegol parhaol neu dros dro sy'n weladwy i'r cyhoedd, p'un ai fel rhan o adeilad neu'n sefyll ar eu pennau eu hunain: gall gynnwys cerflun, effeithiau golau, celfi stryd, palmant, rheiliau ac arwyddion.

Celfi stryd Strwythurau o fewn a nesaf at y briffordd sy'n cyfrannu at olygfa'r stryd, megis cysgodfannau bws, biniau sbwriel, seddi, goleuadau, rheiliau ac arwyddion.

Charrette Digwyddiad (yn amrywio o ychydig oriau i sawl diwrnod) sy'n dwyn amrywiaeth o bobl ynghyd i drafod materion dylunio. Gall charrette ddefnyddio technegau dylunio cydweithrediadol neu beidio. Fe'i gelwir hefyd yn weithdy dylunio.

Cyd-destun Gosodiad y safle neu'r ardal, gan gynnwys ffactorau megis trafndiaeth, gweithgareddau a defnydd tir ynghyd â thirwedd a ffurfiau'r adeiladau.

Cymhareb plot Mesuriad o ddwysedd a fynegir yn gyffredinol fel arwynebedd llawr crynswth wedi'i rannu gan arwynebedd safle net.

Cynhenid Y modd y cafodd adeiladau cyffredin eu hadeiladu mewn lle arbennig, gan ddefnyddio arddulliau, technegau a defnyddiau lleol ac ymateb i amodau economaidd a chymdeithasol lleol.

Datganiad dylunio (a) Gwneir datganiad dylunio cyn gwneud cais gan ddatblygwr i ddynodi'r egwyddorion dylunio y dylid seilio cynnig datblygu gweithredol arnynt. Mae'n galluogi'r awdurdod lleol i roi ymateb cychwynnol i'r materion a godwyd gan y cynnig. (b) Mae datganiad dylunio cais cynllunio yn amlinellu'r egwyddorion dylunio y mae'r ymgeisydd cynllunio wedi'u mabwysiadu mewn perthynas â'r safle a'i gyd-destun ehangach, fel sy'n ofynnol gan PPG1.

Defnydd cymysg Cymysgedd defnydd o fewn adeilad, ar safle neu o fewn ardal benodol. Mae defnyddiau cymysg 'llorweddol' ochr yn ochr, fel arfer mewn adeiladau gwahanol. Mae defnyddiau cymysg 'fertigol' ar loriau gwahanol yr un adeilad.

Diagram ffigur a daear (neu ffigur/daear, neu Nolli) Cynllun yn dangos y berthynas rhwng ffurf wedi'i adeiladu a gofod y mae gan y cyhoedd fynediad iddo (gan gynnwys strydoedd) drwy gyflwyno'r cyntaf mewn du a'r olaf fel cefndir gwyn (neu fel arall).

Dichonoldeb hyfywedd datblygiad mewn perthynas ag amodau economaidd a marchnad

Drychiad Ffasâd adeilad, neu'r darlun o ffasâd. Amgáu. Y defnydd o adeiladau i greu ymdeimlad o ofod diffiniedig.

Dwysedd Arwynebedd llawr adeilad neu adeiladau neu ryw uned arall o fesur sy'n ymwneud ag ardal o dir.

Dwysedd adeiladu Gellir ei fynegi yn nhermau cymhareb plot (ar gyfer datblygiad masnachol); nifer yr unedau neu'r ystafelloedd cyfanheddol fesul hectar (ar gyfer datblygiad preswyl); faint o'r safle a ddefnyddir ynghyd â nifer y lloriau neu uchafswm uchder adeilad; neu gyfuniad o'r rhain.

Dylunio trefol Celfyddyd gwneud lleoedd. Mae dylunio trefol yn cynnwys dylunio adeiladau, grwpiau o adeiladau, gofodau a thirweddau, mewn pentrefi, trefi a dinasoedd, a sefydlu fframweithiau a phrosesau sy'n hwyluso datblygiad llwyddiannus.

Effeithlonrwydd ynni I ba raddau y mae'r defnydd o ynni yn cael ei leihau drwy'r modd y mae adeiladau yn cael eu hadeiladu a'u trefnu ar y safle.

Eglurder I ba raddau y gellir deall a theithio o fewn lle.

Egwyddor dylunio Mynegiant o un o'r syniadau dylunio sylfaenol sydd wrth wraidd fframwaith dylunio trefol, canllaw dylunio, briff datblygu neu ddatblygiad.

Fista Golygfa amgaeedig, fel arfer un hir a chul.

Ffenestriad Trefniant y ffenestri ar ffasâd.

Fframwaith dylunio trefol Dogfen sy'n rhoi gwybodaeth wrth baratoi polisïau cynllun datblygu, neu sy'n amlinellu'n fanwl sut y dylid eu gweithredu mewn ardal arbennig lle bo angen rheoli, arwain a hyrwyddo newid. Gelwir fframweithiau datblygu ardal yn amrywiaeth o enwau eraill, gan gynnwys strategaethau dylunio trefol, fframweithiau datblygu ardal, prif gynlluniau gofodol, a fframweithiau cynllunio a dylunio trefol.

Ffurf Llunwedd (strwythur a graen trefol), dwysedd, graddfa (uchder ac ymgasgliad), gwedd (defnyddiau a manylion) a thirwedd datblygiad.

Golygfa yr hyn sy'n weladwy o bwynt arbennig. Cymharwch â 'Fista'.

Graddfa Argraff o adeilad pan y'i gwelir mewn perthynas â'i amgylchedd, neu faint rhannau o'r adeilad neu ei fanylion, yn enwedig wrth eu profi o ran maint person. Weithiau mae'n gyfanswm dimensiynau adeilad sy'n rhoi synnwyr graddfa iddo: ar adegau eraill maint yr elfennau a'r modd y cânt eu cyfuno. Mae'r cysyniad yn un anodd ac amwys: yn aml fe'i defnyddir fel gair cyfatebol ar gyfer 'maint'. Gweler 'Graddfa ddynol'.

Graddfa ddynol Y defnydd o elfennau o fewn datblygiad sy'n perthyn yn dda o ran maint i bobl a'u codi yn y fath fodd sy'n gwneud i bobl deimlo'n gyfforddus yn hytrach nag wedi'u llethu.

Graen trefol Patrwm y trefniant a maint yr adeiladau a'u plotiau mewn anheddiad; ac i ba raddau y mae patrwm blociau stryd a chyffyrdd stryd ardal yn ôl eu trefn yn fach ac yn aml, neu'n fawr ac yn anaml.

Gweithdy dylunio gweler 'charrette'.

Gwyliadwriaeth Ei gwneud yn anodd troseddu drwy bresenoldeb cerddwyr neu allu pobl i gael eu gweld o ffenestri amgylchynol.

Gwyliadwriaeth naturiol (neu oruchwyliaeth) Ei gwneud yn anodd troseddu drwy bresenoldeb cerddwyr neu allu pobl i gael eu gweld o ffenestri amgylchynol. Hefyd yn cael ei adnabod fel gwyliadwriaeth (neu oruchwyliaeth) oddefol.

Gwyliadwriaeth oddefol gweler 'gwyliadwriaeth naturiol'.

Hygyrchedd: gallu pobl i symud o amgylch ardal ac i gyrraedd lleoedd a chyfleusterau, gan gynnwys yr henoed a phobl anabl, y rheiny â phlant ifanc a'r rheiny sy'n cario bagiau neu siopa.

Hynodrwydd lleol Nodweddiad cadarnhaol lle a'i gymunedau sy'n cyfrannu at ei gymeriad arbennig a synnwyr o le.

Llinell adeiladau Y llinell a gaiff ei ffurfio gan ffryntiadau adeiladau ar hyd stryd. Gellir dangos y llinell adeiladau ar gynllun neu drawslun.

Llinell dymuniad Llinell ddychmygol sy'n cysylltu cyfleusterau neu leoedd y byddai pobl yn ei chael yn gyfleus i deithio rhyngddynt yn hawdd.

Llinell weld Y llinell weld o gerbyd neu berson sy'n teithio. Bydd llinellau gweld yn cynorthwyo wrth benderfynu pa mor gyflym mae cerbydau yn debygol o symud a pha mor ddiogel y bydd defnyddwyr eraill y ffordd yn debygol o fod.

Llunwedd Y modd caiff adeiladau, llwybrau a mannau agored eu gosod mewn perthynas â'i gilydd.

Maes cyhoeddus Rhannau o bentref, tref neu ddinas (sydd mewn perchnogaeth gyhoeddus neu breifat) sydd ar gael, heb dâl, i bawb eu defnyddio neu eu gweld, gan gynnwys strydoedd, sgwariau a pharciau.

Nod Lle ceir crynodiad o weithgaredd a llwybrau ac fe'i defnyddir yn aml yn gyfystyr â chyffordd.

Nodiadau Cyngor Technegol (NCT) Dogfennau yn ymgorffori arweiniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar agweddau cyffredinol a phenodol y polisi cynllunio i'w hystyried wrth fformiwleiddio polisiau cynllun datblygu ac wrth wneud penderfyniadau.

Panel dylunio ymgynghorol Grŵp o bobl (penseiri yn aml) â gwybodaeth arbenigol, sy'n cynghori awdurdod lleol ar rinweddau dylunio ceisiadau cynllunio neu faterion dylunio eraill. Gelwir ef hefyd yn banel penseiri.

Patrwm anheddiad Y modd arbennig y mae ffyrdd, llwybrau ac adeiladau wedi'u gosod mewn man arbennig.

Rheoli datblygu rhagweithiol Unrhyw broses y mae'r awdurdod lleol yn ei defnyddio i weithio gydag ymgeiswyr cynllunio posib i wella ansawdd cynigion datblygu cyn gynted â phosib cyn cyflwyno'r cais cynllunio.

Safonau dylunio Mesurau penodol, fel arfer yn fesuradwy, o amwynder a diogelwch mewn ardaloedd preswyl.

Strwythur llunwedd Fframwaith hierarchaeth llwybrau sy'n cysylltu yn yr ardal leol ac mewn graddfeydd ehangach.

Swmp Effaith gyfunol trefniant, maint a siâp adeilad neu grŵp o adeiladau.

Symudiad Pobl a cherbydau yn mynd i ac yn pasio heibio adeiladau, lleoedd a gofodau. Gellir dangos y rhwydwaith symud ar gynlluniau, drwy ddadansoddiad cystrawen o ofod, drwy ddynodiadau priffyrdd, drwy ddiagramau ffigur a daear, drwy ddata ar darddiad a chyrchfannau neu lif cerddwyr, drwy linellau dymuniad, drwy fanylion gwasanaethau cludiant cyhoeddus, drwy fandiau cerdded neu drwy fanylion llwybrau beicio.

Tir Cyhoeddus gweler 'maes cyhoeddus'

Tirnod Adeilad neu strwythur sy'n sefyll allan o'i gefndir oherwydd uchder, maint neu ryw agwedd arall ar y dyluniad.

Tirwedd Cymeriad a gwedd tir, gan gynnwys ei siâp, ffurf, ecoleg, nodweddion naturiol, lliwiau ac elfennau a'r modd mae'r cydrannau hyn yn cyfuno. Gellir mynegi cymeriad tirwedd drwy arfarniad tirwedd, a mapiau neu gynlluniau. Mewn trefi mae 'treflun' â'r un cysyniad.

Topograffeg Disgrifiad neu gynrychiolaeth o nodweddion artiffisial neu naturiol ar neu o'r ddaear.

Trychlun yn dangos haen drwy adeilad neu safle.

Uchder Gellir mynegi uchder adeilad yn nhermau uchafswm nifer y lloriau; uchafswm uchder parapet neu nenbren; uchafswm uchder cyffredinol; unrhyw un o'r uchafsymiau uchder hyn mewn cyfuniad ag uchafswm nifer y lloriau; cymhareb uchder adeilad i led stryd neu ofod; uchder perthynol i dirnodau arbennig neu adeiladau cefndirol; neu olygfeydd strategol.

Y gallu i addasu: Gallu adeilad neu ofod i gael ei newid er mwyn iddo ymateb i amodau cymdeithasol, technegol ac economaidd newidiol.

